Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Cynnwys

1. Cyflwyniad 3

2. Crynodeb y cyfarwyddwr o berfformiad 4

3. Sut mae pobl yn ein helpu i siapio ein gwasanaethau 6

4. Hyrwyddo a gwella lles y bobl yr ydym yn eu cefnogi 13

a) Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni 13

b) Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hybu iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles emosiynol 20

c) Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed 25

d) Annog a helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas 27

e) Helpu pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach 32

f) Gweithio gyda phobl a'u helpu i wella eu lles economaidd, i gael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion 37

5. Sut rydym yn cyflawni ein gwaith 42

a) Ein gweithlu a sut rydym yn eu cefnogi yn eu rolau proffesiynol 42

b) Ein hadnoddau ariannol a'n cynlluniau i'r dyfodol 47

c) Gweithio mewn partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd 48

Rhagor o wybodaeth a dogfennau allweddol 50

Rhestr Termau 50

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

1. Cyflwyniad

Mae Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych yn dangos sut rydym wedi hyrwyddo lles ac wedi bodloni'r safonau lles dan ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi darparu gwasanaethau gofal a chymorth mewn ffordd wahanol iawn i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â chanllawiau Covid Llywodraeth Cymru ac yn cadw pawb yn ddiogel. Bu'n rhaid newid y ffordd yr ydym yn ymgysylltu â dinasyddion a budd-ddeiliaid, ond rydym wedi sicrhau fod anghenion unigolion wrth wraidd ein gwasanaethau wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau gofal a chymorth.

Bydd yr adroddiad hwn yn gwerthuso perfformiad Cyngor Sir Ddinbych mewn perthynas â darparu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol dros y flwyddyn ddiwethaf. Byddwn yn egluro sut y llwyddom i gyflawni 6 safon ansawdd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chanlyniadau lles:

1. Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni
2. Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hybu iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles emosiynol
3. Gweithio gyda phobl a'u helpu i wella eu lles economaidd, i gael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion
4. Helpu pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach
5. Annog a helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas
6. Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

2. Crynodeb y cyfarwyddwr o berfformiad

Bu eleni yn flwyddyn na welwyd ei thebyg o'r blaen, ond o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol rydym wedi gweithio mewn ffyrdd na fyddem erioed wedi rhagweld ac wedi gweld staff yn cael eu hymestyn yn emosiynol ac yn gorfforol fel erioed o'r blaen.

Yn ystod y 12 mis diwethaf rydym wedi datblygu ffyrdd newydd o weithio i sicrhau ein bod yn parhau i ddiwallu anghenion ein dinasyddion mwyaf agored i niwed ac wedi gweld arloesi a chreadigrwydd.

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r flwyddyn rydym wedi gorfod oedi nifer o'n cynlluniau a datblygiadau, fodd bynnag mae'r pandemig Covid-19 wedi cyflymu eraill. Er enghraifft, mae'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol wedi sicrhau bod nifer o'n dinasyddion sydd ag anableddau dysgu a phlant a teuluoedd a gefnogir gan ein Gwasanaethau Plant wedi gallu parhau i gael eu cefnogi trwy gydol y 12 mis diwethaf.

Mae gwirfoddolwyr wedi dod yn rhan allweddol o'n darpariaeth a chefnogaeth a thrwy lwyddiant y prosiect mae'n rhywbeth y byddwn yn ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn i ddod.

Datblygiad cyffrous arall yw Bwthyn y Ddôl, a ddatblygir mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Yn ystod 2020 - 21 cyflwynwyd y tîm amlddisgyblaethol i ddatblygu gwaith ataliol ymhellach, gyda'r tîm yn cynnig ymyrraeth bwrpasol, dan arweiniad fformiwleiddiad clinigol i achosion risg uchel cymhleth.

Yn y flwyddyn i ddod gobeithiwn y byddwn yn gallu datblygu'r ymarfer da a welwyd yn ystod y 12 mis diwethaf a datblygu amrywiaeth o brosiectau a gwasanaethau i barhau i fodloni'r galw cynyddol ar ein Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys:

- Adeiladu Bwthyn y Ddôl
- Ymgorffori'r ethos Symud Gydag Urddas i'r holl wasanaethau a gaiff eu darparu a'u comisiynu gan Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ac i sicrhau bod staff yn meddu ar y sgiliau priodol i fedru asesu / neu ddarparu'r gofal cywir.
- Ymuno â Rhaglen Drawsnewid Integreiddio Cynnar Llywodraeth Cymru fel awdurdod braenaru, mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
- Sicrhau bod Safonau Diogelu Rhyddid yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

- Parhau i weithio ar ddatblygu Sir Ddinbych i fod yn Gyngor Sy'n Dementia Gyfeillgar.
- Gweld preswylwyr yn symud i Awel-y-Dyffryn, Tai Gofal Ychwanegol yn Ninbych

Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

3. Sut mae pobl yn ein helpu i siapio ein gwasanaethau

Yn ystod pandemig 2020-2021, bu'n rhaid i ni ddatblygu ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu gwasanaethau i sicrhau ein bod yn parhau i fodloni anghenion gofal a chymorth dinasyddion Sir Ddinbych. Er nad oeddem yn gallu ymgysylltu gyda phobl yn y ffordd draddodiadol, roedd yn hynod o bwysig i ni fod ein dinasyddion yn cael eu cynnwys yn y broses o siapio ein gwasanaethau.

Gwasanaethau Plant

Mae Addysg a Gwasanaethau Plant wedi lansio Mind of My Own, ap a luniwyd ar y cyd gyda phlant a phobl ifanc. Mae'r dechnoleg hon yn defnyddio iaith a chynllun sy'n canolbwyntio ar y plentyn i annog pobl ifanc i rannu eu teimladau gan ddefnyddio llechen ddigidol neu ffôn. Mae'n galluogi plant i rannu gwybodaeth mewn amgylchedd cyfrinachol lle bynnag a phryd bynnag y dymunent, mae hefyd yn helpu eu gweithiwr dynodedig i fonitro eu lles yn rheolaidd. Yn ogystal â hynny, mae'n helpu'r gwasanaeth i ddadansoddi data er mwyn nodi themâu neu faterion diogelu sy'n codi.

Crynodeb o'r defnydd o'r ap Mind of My Own

At bwy mae pobl ifanc yn anfon y mwyafrif o ddatganiadau?

- Eu gweithiwr cymdeithasol
- Gweithiwr cymdeithasol eu gofalwr maeth
- Eu Swyddog Adolygu Annibynnol

Pa grwpiau oedran o bobl ifanc sy'n defnyddio'r ap fwyaf?

- plant 10 mlwydd oed
- plant 11 mlwydd oed
- plant 13 mlwydd oed

Ar gyfer pa fath o senario y defnyddir yr ap fwyaf?

- Fy mywyd
- Adolygiad gofal maeth
- Paratoi ar gyfer cyfarfod

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

O'r datganiadau a dderbyniwyd, roedd 79% yn gadarnhaol a dim ond 21% oedd yn negyddol.

Darparwyd Hyfforddiant Ar-lein i staff a Modiwlau E-ddysgu ar gyfer Gofalwyr Maeth ynghyd â Sesiynau Diweddaru Staff chwarterol parhaus. Aeth y platfform yn 'fyw' gyda phlant a phobl ifanc ar draws Timau Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn Gyntaf Integredig ar 8 Mehefin 2020 ac ar gyfer Addysg ar 1 Medi 2020. Mae'r penderfyniad i gomisiynu'r platfform hwn yn dangos ein hymrwymiad i gynyddu proffil 'llais y plentyn', rydym wedi derbyn ymateb cadarnhaol gan bobl ifanc ar draws y gwasanaeth.

Mae'r Fframwaith Sicrwydd Chwarterol yn parhau i gael ei gynhyrchu ac mae'r canfyddiadau wedi cael eu cyflwyno i uwch reolwyr o fewn Addysg a Gwasanaethau Plant. Mae'r adroddiad hwn wedi adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i'r ddarpariaeth gwasanaeth yn sgil y pandemig Covid-19 ac mae wedi helpu'r gwasanaeth i fonitro effaith y newidiadau hyn.

Gofalwyr

Mae Gwasanaethau Cymorth Cymunedol yn parhau i weithredu gwelliannau drwy'r Prosiect Cefnogi Gofalwyr yn Sir Ddinbych 2018-2022, sy'n cefnogi nod y Cyngor i ddatblygu cymunedau annibynnol a chryf. Cyn y pandemig, roedd y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol yn parhau i wella cymorth ar gyfer gofalwyr e.e. bodloni anghenion cymwys a chomisiynu a darparu beth sy'n bwysig i ofalwyr. Mae ein Un Pwynt Mynediad, Pwyntiau Siarad a Llyw-wyr Cymunedol wedi parhau i gynorthwyo â nodi gofalwyr a'u cyfeirio at gefnogaeth.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Ar Ddiwrnod Hawliau Gofalwyr, fe wnaethom hefyd lansio'r Siarter Gofalwyr a ddatblygwyd gyda chymorth y Grŵp Strategaeth Gofalwyr a rhwydweithiau Gofalwyr lleol. Pwrpas y Siarter yw gwella cydnabyddiaeth a chodi ymwybyddiaeth ymhlith y gymuned ehangach.

Drwy weithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a sefydliadau Trydydd Sector eraill, daethom at ein gilydd i ganolbwyntio ar yr anghenion a'r gefnogaeth uniongyrchol a oedd eu hangen ar ofalwyr o ganlyniad i'r pandemig Covid-19. Roedd hyn yn cynnwys rhoi mynediad i ofalwyr at Gyfarpar Diogelu Personol gan yr Awdurdod Lleol ac ychwanegu gwybodaeth, cyngor a chymorth arbennig mewn perthynas â Covid-19 i ofalwyr ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.

Pobl Hŷn

Yn ystod 2020-21, fe wnaeth bron i 20,000 o ddinasyddion gysylltu gyda'n Un Pwynt Mynediad a chafodd 47% o'r rheiny eu hatgyfeirio at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ffurfiol. Aeth 3983 yn eu blaenau i dderbyn asesiad o'u hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol.

Ar ddechrau'r cyfnod clo ym mis Mawrth 2020, roedd cynnydd sylweddol yn nifer y dinasyddion a oedd yn cysylltu gydag Un Pwynt Mynediad, felly penderfynom lansio ac ymrwymo llinell ffôn arbennig i ddarparu cefnogaeth ychwanegol i ddinasyddion sy'n cael trafferth â hunan-ynysu ac angen cymorth yn ystod y cyfnod clo Covid-19. Datblygwyd Pwyntiau Siarad fel gwasanaeth ar-lein ac fe wnaeth ein Llyw-wyr Cymunedol gymryd yr awenau â'r llinell ffôn ychwanegol. Roeddent yn ymateb i oddeutu 240 o alwadau'r wythnos, ac yn dilyn sgwrs 'beth sy'n bwysig, yn seiliedig ar gryfderau', ac yn darparu amrywiaeth o gymorth, gan gynnwys cyflenwi bwyd, presgripsiynau a nwyddau hanfodol eraill.

Teilwrom ein Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i sicrhau 'ymateb cywir cyswllt cyntaf'. Yn ogystal â chyflenwi presgripsiynau a phecynnau bwyd ac mewn ymateb i'r unigrwydd cynyddol yr oedd dinasyddion yn ei brofi, sefydlom wasanaeth Cyfeillio Dros y Ffôn gyda 45 o gyfeillion, 26 Cynghorydd ac 19 o wirfoddolwyr a gafodd eu paru'n briodol â'r 53 o ddinasyddion a oedd wedi gwneud cais am y gefnogaeth hon. Derbyniwyd adborth cadarnhaol, gan gynnwys; 'Hoffem ganmol y gwaith y mae Cyngor Sir Ddinbych yn ei wneud, diolch am yr alwad, rydym yn ei werthfawrogi'n fawr, ac rydym wirioneddol yn gwerthfawrogi'r rheiny sydd wedi parhau i weithio a'r holl waith sy'n mynd rhagddo i'n helpu ni a phawb arall. Da iawn a diolch yn fawr."

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Llun o Gydlynydd Lles Un Pwynt Mynediad a Llywiwr Cymunedol yn cyflenwi presgripsiynau a gafodd ei gynnwys mewn papur lleol dan y pennawd; “Mae deuawd arbennig o Brestatyn wedi cyflenwi dros 1,700 o bresgripsiynau yn y dref yn ystod y cyfnod clo.”;

Ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2020, comisiynom Age Connects i gynnal ymarfer ymgysylltu er mwyn ystyried yr awydd am gynllun i gefnogi anghenion iechyd, gofal cymdeithasol, tai a lles pobl hŷn yn ardal Corwen. Yn dilyn hynny, comisiynom Practice Solutions i gynnal ymarfer ymgysylltu yn ardal Dinbych ar yr un thema. Rydym yn aros am yr adroddiad terfynol gan Practice Solutions.

Yn ogystal â hynny, mae gwaith â phobl hŷn yn Sir Ddinbych wedi bod yn seiliedig ar y canlynol:

- Ymgysylltiad â Phobl Hŷn a gaiff ei gydlynu gan Swyddfa’r Comisiynydd Pobl Hŷn, bob yn ail mis. Mae hyn yn cynnwys trafodaethau ar ystod o bynciau, megis yr effaith ar gartrefi gofal a’r effaith y mae’r cyfnod clo a chadw pellter cymdeithasol wedi’i gael ar bobl hŷn yn ein cymunedau.
- Cyfarfodydd Cymuned Ymarfer Cyfeillgar i Oedran a gaiff eu cydlynu gan swyddfa’r Comisiynydd Pobl Hŷn a fynychir gan ystod o ddinasyddion/gweithwyr.
- Rhwydweithiau Ymarferwyr Ymgysylltu Chwarterol – a fynychir gan y rheiny sy’n cynrychioli dinasyddion o bob cefndir
- Cyfarfodydd Heneiddio’n Dda yn Sir Ddinbych chwarterol, a fynychir gan ddinasyddion yn ogystal ag ymarferwyr

- Cyfarfodydd Rhwydwaith Lles chwarterol, a gaiff eu cynnal ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae'r rhain yn cynnwys dinasyddion yn ogystal ag ymarferwyr
- Rhwydwaith Trydydd Sector Gwirfoddolwyr Sir Ddinbych chwarterol sy'n ystyried materion sy'n cael effaith ar wirfoddolwyr a'r rheiny yn y 3ydd sector
- Cyfarfodydd achlysurol â Thîm Cydlyniant Rhanbarthol Gogledd Ddwyrain Cymru, e.e. Dathlu Cymunedau Cydlynol: (gweithdy rhyngweithiol â sefydliadau sy'n cefnogi cymunedau yn Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych, a sefydliadau cenedlaethol sy'n darparu cymorth ar draws Gogledd Cymru).

Anableddau Dysgu

Yn ystod 2020-21, mae ein gwasanaethau cyfleoedd dydd a gwaith wedi parhau i fod ar gau yn sgil cyfyngiadau'r cyfnod clo Covid-19 ac i sicrhau ein bod yn helpu i gadw dinasyddion yn ddiogel.

Fodd bynnag, mae staff wedi parhau i weithio ar sicrhau fod gennym wasanaethau i fodloni anghenion ein dinasyddion.

Roedd gofyn i Popty, y gwasanaeth arlwyo o fewn ein cyfleoedd gwaith, symud o'u safle presennol ac rydym wedi ymgysylltu gyda dinasyddion a'u teuluoedd a gofalwyr i dderbyn adborth ar sut hoffent weld y gwasanaeth yn newid a'r gefnogaeth y byddai arnynt ei hangen i reoli unrhyw newid Mae'r adborth o'r arolwg hwn yn cyfrannu at y cynlluniau ar gyfer Popty i'r dyfodol.

Drwy gydol y cyfnod clo, rydym wedi cynnal gweithdai gyda gofalwyr sy'n rhieni i ddeall eu profiadau a deall pa gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Fe wnaeth hyn arwain at ddarparu cefnogaeth amgen unigol i rai teuluoedd. Fel rhan o'r broses ymgysylltu barhaus hon, fe wnaeth gofalwyr sy'n rhieni fynegi eu pryderon mewn perthynas â mynd allan gyda'u mab/merch ar ôl i'r cyfyngiadau lacio. Rydym wedi gweithio'n agos gyda theuluoedd a rhai o'n gwasanaethau a gomisiynwyd a threfnu gofod yn yr awyr agored o fewn 2 o'n prosiectau gwledig a oedd yn caniatáu i deuluoedd neu weithwyr cefnogi fynd â'u mab/merch i'r goedwig neu ar ffarm i fwynhau amser preifat mewn amgylchedd diogel.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Mae ein Swyddog Comisiynu a'n tîm Gweithredol wedi ymgysylltu â theuluoedd dinasyddion ag anableddau dysgu i lywio manyleb y gwasanaeth ar gyfer prosiectau Byw â Chymorth yn Llangollen a Dinbych. Maent hefyd wedi bod yn rhan allweddol o'r broses o ddylunio'r eiddo a'r cwestiynau i ddarparwyr mewn ymateb i'r tendr i ddarparu'r prosiectau.

Mae'r Prosiect Trawsnewid Rhanbarthol wedi darparu cyllid ychwanegol o £30,000 i Wasanaeth Eiriolaeth Annibynnol Gogledd Cymru a Cyswllt Conwy i weithio ochr yn ochr â Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan i uwchsgilio unigolion ag anableddau dysgu i gyfrannu at gomisiynu gwasanaethau i bobl ag Anableddau Dysgu ledled y rhanbarth. Mae grŵp cyfranogi Gogledd Cymru yn cynnwys hunaneiriolwyr o'r chwe awdurdod lleol – mae dau eiriolwr o Sir Ddinbych yn aelodau o'r grŵp.

Yn ogystal â hyn, mae'r Prosiect Trawsnewid Rhanbarthol wedi dyrannu £150,000 ar gyfer gweithgareddau'r Trydydd Sector a'r Sector Gwirfoddol i bobl ag anableddau dysgu ledled y Gogledd. Mae'r Gwasanaethau Eiriolaeth wedi uwchsgilio'r grŵp i ddewis o'r cynigion a gyflwynwyd, fel eu bod yn dyrannu'r cyllid hwnnw'n uniongyrchol fel grŵp o ddinasyddion. Mae hon yn enghraifft ragorol o gydgynhyrchu rhanbarthol.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Darparwyr Gofal

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn cynnal cyfarfodydd ar-lein wythnosol neu bob yn ail wythnos gyda darparwyr gofal cartref neu ofal preswyl. Rydym yn anelu at rannu gwybodaeth allweddol a rhoi cyfle i ddarparwyr rannu eu cwestiynau, barn a'u hadborth â Chyngor Sir Ddinbych a gyda'i gilydd. Mae felly'n cynnig cyfle gwych i gefnogi cymheiriaid.

Mae'r cyfarfodydd wedi helpu darparwyr gofal a CSDd i gyfathrebu mewn modd mwy agored ac mae'r adborth gan ddarparwyr gofal wedi bod yn gadarnhaol iawn. Yn ddiweddar, rydym wedi dechrau treialu cyfarfodydd misol tebyg gyda darparwyr atal digartrefedd.

Canmoliaeth a chwynion

Mae ein Tîm Cysylltiadau Cwsmeriaid yn rheoli a monitro canmoliaeth a chwynion a dderbynnir mewn perthynas â Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Plant.

Yn ystod 2020-21, roedd gostyngiad o 50% yn nifer y cwynion a dderbyniwyd o'i gymharu â'r flwyddyn gynt, ymddengys bod hyn o ganlyniad i'r pandemig Covid-19.

Cwynion a dderbyniwyd yn 2020-2021	Gwasanaethau Addysg a Phlant	Gwasanaethau Cymorth Cymunedol
Cwynion Cam 1	9	7
Cwynion Cam 2	3	3
Pryderon	6	1
Canmoliaethau	82	132

Roedd un gŵyn yn erbyn aelod o'r staff ynghylch ei ymyriad gyda dinesydd yn ymwneud ag ymagwedd staff a diffyg gwybodaeth am yr achos.

Ar ôl dadansoddi cwynion o'r ddwy flynedd flaenorol, datblygom Hyfforddiant Rheoli Gwrthdaro / Cwynion a gyflwynwyd ar draws Gwasanaethau Cymorth Cymunedol. Mae'n ymddangos bellach bod rhagor o ymwybyddiaeth ymysg staff sy'n ymdrin â chwsmeriaid o sut i ymdrin â chwynion, ac rydym yn teimlo fod hyn hefyd wedi cael effaith ar y gostyngiad yn nifer y problemau a gaiff eu codi â'r Tîm Cysylltiadau Cwsmeriaid. Enghreifftiau o gysylltiadau diweddar;

- Teimlwn fod y cymorth a gawsom gan yr adran 'gyfan' wedi bod yn rhagorol. Mae'r Gweithiwr Cymdeithasol sy'n ein cynorthwyo wedi bod ar gael yn ôl yr angen ac mae wedi ein hannog i fanteisio ar unrhyw gyfleoedd hyfforddi a oedd ar gael. Mae hefyd wedi gallu rhoi rhywfaint o dawelwch meddwl a chefnogaeth pan oeddem yn ansicr o bethau. Mae X yn darparu cymorth i M (ac i ni) yn ôl yr angen.
- Mae'r tîm cyswllt wedi chwarae rhan hefyd wrth ddarparu adborth cadarnhaol. Diolch i chi am eich sylwadau ar ddiwedd yr adroddiad hwn; mae'r gydnabyddiaeth yn rhoi hwb emosiynol sy'n ein helpu i fod yn fwy cydnerth. Diolch o galon i chi.
- Cefais alwad yn ddiweddar gan fenyw o'r adran ragweithiol. Ar ôl rhoi gwybod i mi fy mod i ar restr warchod y GIG, rhoddodd wybodaeth werthfawr am y gwasanaethau sydd ar gael i'm gwraig a minnau. Roedd hyn yn cynnwys danfon bwyd a meddyginiaeth. Roeddwn i wedi cael trafferthion gyda meddygfa'r meddyg teulu lleol ynghylch danfon meddyginiaeth am eu bod nhw'n gwrthod gwneud hynny na darparu llythyr i mi ei anfon at fy nghyflogwr. Fodd bynnag, ar ôl gadael neges i X am hyn, cefais alwad gan y feddygfa wedyn ac roedd pob dim wedi'i drefnu! Ac ar ddydd Mercher, cawsom barsel bwyd a llawer o bethau hanfodol. Byddwch cystal â diolch ar ein rhan i X a'i chydweithwyr yn yr adran gan ein bod yn gwerthfawrogi popeth y maent yn ei wneud dros y gymuned, a hefyd i bawb sy'n danfon eitemau yn y cyfnod anodd hwn.

4. Hyrwyddo a gwella lles y bobl yr ydym yn eu cefnogi

a) Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni

Dyma ddywedom ni y byddwn yn ei wneud

- Sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gael yn ddigidol yn ogystal â thrwy sianeli eraill i gefnogi Gofalwyr.
- Gwella mynediad, sgiliau a hyder dinasyddion diamddiffyn a allai elwa o ddatrysiadau gofal a chefnogaeth sy'n seiliedig ar dechnoleg ddigidol.
- Cryfhau'r cynnig 'Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth' drwy gydol siwrnai'r dinesydd, gan alluogi dinasyddion i ddatblygu gwytnwch a chynnal annibyniaeth.
- Datblygu Gwasanaeth a Llwybr Blynyddoedd Cynnar integredig newydd.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Dyma rydym wedi'i wneud a'i gyflawni

• Roedd gan 1974 o oedolion gynllun gofal a chymorth ar waith yn ystod y flwyddyn, sef gostyngiad o 9% ers 2019-20.
• Cwblhawyd 72% o asesiadau ar gyfer plant o fewn amserlenni statudol, sef gostyngiad o 8% ers 2019-20.

Ein blaenoriaeth dros y deuddeg mis diwethaf oedd parhau i ddarparu gofal a chefnogaeth i'n dinasyddion mewn modd diogel. Ymdrechwyd i gynnal gwaith cyd-gynhyrchu a chadw'r dinesydd wrth wraidd popeth a wnawn.

Roedd Deddf y Coronafeirws yn caniatáu i Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ymgymryd â dull mwy hyblyg i gael mynediad at a darparu gofal a chymorth yn ystod 2020-21. Mae pob math o gynlluniau asesu a chefnogaeth, gan gynnwys gwaith cymdeithasol, therapi galwedigaethol, Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a Diogelu Oedolion wedi parhau drwy gydol y cyfnod clo.

Fodd bynnag, hwyluswyd y mwyafrif o'r rhain drwy weithredu asesiad risg Covid-19 effeithiol a gwaith lliniaru perthnasol. Yn y mwyafrif o achosion, gwnaethpwyd hyn drwy amrywiaeth o blatfformau ar-lein megis Zoom a Microsoft Teams.

Cafodd pob dinesydd sy'n derbyn pecyn gofal a chefnogaeth eu hadolygu a'u hasesu i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu bodloni, er y bu'n rhaid gwneud hynny drwy ddulliau gwahanol. Recriwtiwyd gwirfoddolwyr o'n cymunedau lleol i'r gwasanaeth ac maent wedi darparu ystod o wasanaethau cymorth i ddinasyddion ag anghenion gofal is i ganiatáu i'n darparwyr a gomisiynwyd barhau i ddarparu gofal a chymorth i unigolion sydd ag anghenion mwy cymhleth.

O fewn ein Gwasanaethau Plant, mae addasu i weithio o gartref a'r defnydd o ddulliau cysylltu ar-lein wedi ein caniatáu i barhau â'n gwaith heb gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Mewn rhai achosion, mae'r defnydd o dechnoleg fel dull cyfathrebu wedi rhyddhau capasiti o fewn timau ac wedi arwain at gyfarfodydd yn cael eu cynnal yn fwy prydlon. Mae hyn hefyd wedi galluogi staff i gynnig sesiynau mwy rheolaidd ond byrrach.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Mae llawer o waith wedi bod yn mynd rhagddo i integreiddio'r llwybr Blynyddoedd Cynnar dros y ddwy flynedd ddiwethaf, roedd hyn yn cynnwys:

- Creu ein **Tîm Allgymorth Cyn Ysgol** i sicrhau fod gan ddarparwyr gofal plant fynediad at gyngor a chanllawiau os oes ganddynt unrhyw bryderon mewn perthynas â datblygiad plentyn yn eu gofal. Yn ystod 2020-21, ymestynnwyd y gwasanaeth i bob darparwr gofal plant, gan gynnwys gwarchodwyr plant, gan ymgorffori gofyniad Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN) a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a fydd yn rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i benderfynu a oes gan blentyn neu unigolyn ifanc, rhwng 0 a 25 oed, Anghenion Dysgu Ychwanegol neu ddim a chynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol lle bo angen. Eleni, rydym wedi gweithredu rhaglen hyfforddiant i gryfhau sgiliau a gwybodaeth y tîm i gefnogi lleoliadau ar draws Sir Ddinbych yn effeithiol.

- Datblygu ein dull **Tîm o Amgylch y Lleoliad** sy'n anelu at sicrhau darpariaeth gofal plant o ansawdd uchel o fewn y sector cyn ysgol drwy greu a monitro a chefnogi strwythur i leoliadau. Ym mis Ionawr 2020, dechreuwyd hyn drwy integreiddio staff Dechrau'n Deg ac Addysg Gynnar i un tîm cydlynol a gaiff ei reoli gan Swyddog Cynhwysiant y Blynyddoedd Cynnar, sy'n gweithio ar draws Addysg Gynnar, Anghenion Dysgu Ychwanegol a Dechrau'n Deg. Rydym yn bwriadu datblygu'r dull hwn ymhellach gyda swyddogion cefnogi addysg o Dechrau'n Deg, Addysg Gynnar, y Tîm ADY Cyn Ysgol ac Athrawon Addysg Gynnar gan gysylltu a chynghori â lleoliadau bob hanner tymor ar faterion yn ymwneud â hunanwerthuso, gwella lleoliadau a chynllunio a darparu Cwricwlwm y Blynyddoedd Cynnar. Mae'r gwaith o fapio'r broses wedi'i gwblhau a bydd yn mynd yn fyw ym mis Medi 2021.

- Yn ystod 2019-20 a 2020-21, gweithredwyd y dull Solihull, rhaglen cefnogi rhieni sy'n darparu'r sylfaen i helpu rhieni i ddeall eu plentyn, gan hyrwyddo iechyd a lles emosiynol da i deuluoedd.

  Mae'r dull hwn hefyd wedi cael ei fabwysiadu ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gan roi iaith a dull cyffredin i weithwyr proffesiynol a rhieni er mwyn cefnogi rhieni. Drwy gydol 2020/21, mae ein Gweithwyr Cyswllt Teulu wedi darparu cefnogaeth uniongyrchol i dros 300 o rieni, dros y ffôn ac ar-lein, i gael mynediad at gwrs **'Deall Eich Plentyn' Solihull.**

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Mae'r buddion o gydweithio ar draws y Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar hyd yma'n cynnwys;

- darparu gwasanaethau cyson gan gyfathrebu a chynnal perthnasoedd gwaith gwell
- gwella prosesau rhannu gwybodaeth mewn perthynas â lleferydd, iaith a chyfathrebu a phresenoldeb i blant y mae disgwyl iddynt ddechrau mewn meithrinfa
- cynhyrchu canllawiau a chyngor i ddarparwyr gofal plant mewn perthynas â pharatoi a throsglwyddo plant i'r ysgol
- cynnal cyfarfod Panel Blynyddoedd Cynnar Sengl gyda rhagor o ymgysylltiad a chyfraniad gan weithwyr proffesiynol
- mae Hyfforddiant Solihull ar gyfer gweithwyr proffesiynol wedi cael ei raeadru ar draws Addysg Gynnar a Dechrau'n Deg, yn ogystal â'r Tîm o Amgylch y Teulu a Gweithwyr Cefnogi Teuluoedd sy'n defnyddio dull integredig ar draws Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.

Mae ein tîm Anableddau Cymhleth wedi gweld cynnydd yn y galw am ein gwasanaeth cefnogi cynnydd sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo cynhwysiant a chyfranogiad. Mae bellach yn wasanaeth prif ffrwd ac wedi llwyddo i alluogi dinasyddion i ystyried canlyniadau nad oeddent yn credu eu bod yn gyraeddadwy gynt.

Mae Covid-19 wedi ennyn rhagor o arloesi gan nad oedd y ffyrdd traddodiadol o gyd-gynhyrchu'n bosibl mwyach. Defnyddiwyd technoleg megis yr 'Owl' a osodwyd mewn canolfan ddydd er mwyn gallu trosglwyddo sesiynau o'r ganolfan i gartrefi Dinasyddion.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Rydym wedi cael ein cymell i ystyried sut y gallwn weithredu arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn well, yn arbennig yn ystod y cam adolygu, gan ei fod yn allweddol ar gyfer cyd-gynhyrchu canlyniadau gyda dinasyddion.

Mae'r gwasanaeth wedi gallu addasu i fodloni anghenion newidiol dinasyddion yn ein cymuned drwy ddefnyddio technoleg. Rydym wedi parhau i ddefnyddio apiau galwadau fideo a rhannu cyfryngau er mwyn cadw mewn cysylltiad, yn ogystal â chynnal asesiadau risg manwl er mwyn sicrhau bod unrhyw gysylltiad wyneb yn wyneb yn cael ei gwblhau'n ddiogel.

Gweler y llun isod o'r ddyfais owl yn cael ei defnyddio yn y disgo Nadolig yng Nghanolfan Glyndŵr gan gadw at y rheolau cadw pellter cymdeithasol:

Rydym wedi darparu sesiynau coginio fideo ac wedi rhannu ryseitiau ar-lein, sydd wedi gweithio'n dda iawn.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r tîm Trawsnewid Rhanbarthol ac wedi darparu gliniaduron a llechi digidol i ddinasyddion nad oedd modd iddynt eu hariannu eu hunain.

Mae hyn wedi galluogi mynediad at weithgareddau grŵp ar-lein a gynhelir gan asiantaethau Trydydd Sector, gan gefnogi lles unigolion mewn cyfnod unig iawn.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Cafwyd un achos o riant mewn argyfwng yn ceisio cefnogaeth mewn perthynas â dirywiad i ymddygiad yn sgil diflastod. Mae darparu dyfais electronig sy'n galluogi mynediad at weithgareddau ar-lein wedi helpu i lenwi'r bwlch yr oedd y diffyg lleoliadau gwaith a grwpiau wyneb yn wyneb wedi'i adael, yn ogystal ag osgoi tor-perthynas â gofalwr.

Roedd rhai cynlluniau llwyddiant yn edrych yn benodol ar ddatblygu sgiliau mewn perthynas â thechnoleg a chael mynediad at geisiadau rhyngweithiol sy'n gallu cefnogi unigolion. Roedd rhai'n canolbwyntio ar weithgareddau nad oedd dinasyddion o bosibl yn gallu eu cwblhau yn ystod y pandemig Covid-19, megis chwaraeon a theithio.

Mae'r newid parhaus i gyfyngiadau'r llywodraeth dros y flwyddyn wedi'i gwneud yn anodd i ddinasyddion gynnal y sgiliau newydd hyn. Mae hyn yn golygu fod nifer o ddinasyddion wedi aros yn y gwasanaeth yn hirach na'r disgwyl.

Rydym wedi parhau i ystyried y ffordd orau i hyrwyddo ac annog technoleg o fewn ein hymyrraeth ac wedi dyrannu Gweithiwr Cefnogi i hyrwyddo hyn a gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer gwybodaeth ar ddigwyddiadau a grwpiau ar-lein.

Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, mae nifer helaeth o'n dinasyddion wedi bod yn ddibynnol ar eu rhwydweithiau cymorth neu wasanaethau Trydydd Sector i siopa ar eu rhan. Roedd hyn yn amlwg yn ystod y cyfnod clo cyntaf pan welsom fod nifer yn dibynnu ar gefnogaeth fel hyn a lle bynnag y bo hynny'n briodol, rydym wedi ymgorffori siopa hanfodol i gynlluniau llwyddiant gan fod hyn yn hollbwysig ac yn ystyrlon.

Astudiaeth Achos:

Yn dilyn marwolaeth ei dad, roedd Mr X yn byw mewn carafán yng ngardd ffrind agos, ac roedd ei ddillad yn cael eu golchi a'i holl brydau'n cael eu paratoi iddo.

Nodwyd yn fuan iawn nad oedd y sefyllfa'n gynaliadwy a gwnaethpwyd atgyfeiriad at y gwasanaeth Anableddau Cymhleth i'w helpu i ddatblygu sgiliau byw dyddiol ac annibynnol gyda'r nod o helpu Mr X i fyw yn ei fflat ei hun.

Nid oedd erioed wedi byw ei hun, nac wedi dangos unrhyw ddiddordeb mewn coginio na gofalu am ei dŷ. Roedd Mr X mewn perygl o ddigartrefedd ac roedd arno angen cael ei ailgartrefu i rywle a oedd yn cynnig gofal a chefnogaeth sylweddol.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Gan fod ganddo anabledd dysgu ysgafn, roedd Mr X yn cael trafferth â threfnu a chanolbwyntio ar dasgau, ond gyda chefnogaeth ei ffrind, llwyddodd i ganfod a threfnu tenantiaeth mewn fflat stiwdio. Gweithiodd Just Enough Support (JES) gyda Mr X i gynllunio canlyniadau cyraeddadwy dros gyfnod o bedwar mis, i'w alluogi i symud i mewn. Gosodwyd targedau wythnosol a dyddiol, gan gynyddu lefel cymhlethdod y tasgau wrth i Mr X wneud cynnydd. Canolbwyntiodd y Gweithiwr Cefnogi ar sesiynau ymarferol i gynyddu ei sgiliau a'i hyder yn glanhau, golchi dillad, coginio a siopa. Mae Mr X yn mwynhau pysgota, ac roedd modd iddo wneud hyn yn ystod y cyfnodau clo.

I ddechrau, byddai'n canslo sesiynau cymorth os oedd ganddo gynlluniau i fynd i bysgota, ac yn y sesiwn nesaf, roedd yn amlwg nad oedd y targedau cytunedig wedi'u cwblhau.

Datblygwyd cynllunwyr gweithgareddau a phrydau wythnosol er mwyn cynnig cydbwysedd i Mr X, ac mae hyn wedi gweithio'n dda.

Cefnogom Mr X i sefydlu debyd uniongyrchol ar gyfer y rhan fwyaf o filiau a chardiau talu wrth fynd ar gyfer trydan a nwy. Roedd defnyddio cynllunydd wythnosol yn golygu fod Mr X yn gallu nodi dyddiadau/amseroedd cyfleus i roi arian yn y rhain a sicrhau mynediad cyson at gyfleusterau sylfaenol a lleihau'r risg o ôl-ddyledion. Roedd Mr X wastad wedi derbyn cefnogaeth mewn perthynas â chyllid, ond mae bellach yn defnyddio ap bancio ar-lein er mwyn cadw golwg ar ei arian.

Anogwyd Mr X i fyfyrio ar bob sesiwn a nodi cyraeddiadau arbennig a gyflawnwyd. Rhoddodd hyn ymdeimlad o gyrhaeddiad iddo, sydd, yn ei dro, wedi helpu ei gymhelliant a'i ffocws ar dasgau i'r dyfodol. O fewn tair wythnos, roedd ymweld â'r golchdy yn rhan o batrwm wythnosol Mr X. Mae hyn yn dangos ei fod wedi datblygu sgiliau newydd, er enghraifft, ymdrin ag arian, cynllunio a rheoli amser.

"Rwyf bellach yn byw ar fy mhen fy hun am y tro cyntaf erioed. Mae fy Ngweithiwr Cefnogi'n barod iawn i helpu. Mi es i'r golchdy ar fy mhen fy hun yr wythnos ddiwethaf!"

Dyma rai pethau sydd eto i'w cwblhau

Datblygu gofal a chymorth ymhellach i alluogi pobl i aros yn eu llety eu hunain.
Hyrwyddo'r defnydd o daliadau uniongyrchol a chefnogi cyllidebau i wella dewis a rheolaeth Oedolion a Phlant dros gynllunio a darparu eu gofal a'u cymorth eu hunain.
Sefydlu'r defnydd o gardiau rhagdaledig i gynyddu effeithlonrwydd.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

b) Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hybu iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles emosiynol

Dyma ddywedom ni y byddwn yn ei wneud

- Bwrw ymlaen â datblygiadau i sefydlu 4 Tîm Adnoddau Cymunedol integredig wedi'u cyd-leoli ar draws Sir Ddinbych i sicrhau bod dinasyddion yn derbyn gwasanaeth di-dor ac ymatebol.
- Parhau i ddatblygu ac adolygu gwasanaethau sy'n bodloni anghenion gofalwyr ar draws Sir Ddinbych drwy drafodaethau ac ymgysylltu parhaus â phartneriaid a thrwy fforwm gofalwyr.
- Cyflwyno tîm aml asiantaeth peripatetig ar draws Sir Ddinbych a Chonwy i weithio gyda phlant a theuluoedd sydd mewn perygl o gael eu lleoli mewn gofal preswyl hirdymor.

Dyma rydym wedi'i wneud a'i gyflawni

0.86 - Y gyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu'n hŷn. Gwelliant sylweddol o 2.27 yn 2019-20.
Yr oedran cyfartalog ar gyfer oedolion sy'n mynd i gartrefi gofal preswyl yn 2020-21 oedd 85, o'i gymharu ag 81 yn 2019-20.

Roedd cefnogi ein dinasyddion i ddiogelu a chynnal eu hiechyd meddwl a'u lles emosiynol yn hanfodol yn ystod y cyfnod clo Covid-19 a nodwyd ystod o atebion arloesol a chreadigol i gyflawni hyn.

Mae gwaith ar y cyd rhwng ein tîm Contractau a Chomisiynu, y gwasanaeth Anableddau Cymhleth, darparwyr gwasanaethau dydd a'r ganolfan sgiliau coetir a ffermio wedi galluogi unigolion ag anabledd dysgu i gael seibiant o'r cyfnod clo drwy fynediad diogel at yr awyr agored.

Rydym wedi cynnal asesiadau Deddf Iechyd Meddwl Wyneb yn Wyneb drwy gadw at y rheolau pellter cymdeithasol a chyflwyno gwisgoedd a Chyfarpar Diogelu Personol.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Drwy ddefnyddio technoleg ddigidol, roedd modd i ni gyflymu datblygiad ein Timau Adnoddau Cymunedol, fe wnaeth hyn hefyd ein helpu i ddatblygu cysylltiadau cryfach gyda chydweithwyr iechyd Gofal Sylfaenol.

Ym mis Gorffennaf 2020, fe wnaeth y 2 Dîm Adnoddau Cymunedol yn Ne Sir Ddinbych weithio gyda Meddygon Teulu, gan drafod 1924 o gleifion mewn adolygiadau achosion cymhleth. Drwy'r broses hon, rydym bellach wedi llwyddo i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor sydd wedi cefnogi dinasyddion i gyflawni canlyniadau gwell.

Dyma'r adborth a gafwyd gan Feddygon Teulu ynghylch gwerth y trafodaethau achosion cymhleth hyn:

- defnydd effeithiol ac effeithlon o amser
- gwelliant i brosesau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth ar draws y sbectrwm o weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol
- gostyngiad yn nifer y galwadau ffôn
- gostyngiad o ran proses a biwrocratiaeth
- perthnasoedd a chydweithio gwell o fewn y Tîm Adnoddau Cymunedol
- darparu ffordd gydlynol o wella ansawdd a chysondeb gwasanaethau i'r claf.

Roedd ymgysylltu â Phobl Ifanc ac Oedolion sy'n Ofalwyr i gynnig cefnogaeth iddynt yn ystod y cyfnod clo Covid-19 yn hanfodol ac un o'r pethau cyntaf i ni gydnabod oedd y cynnydd mewn angen a'r gostyngiad mewn argaeledd gwasanaethau, megis gofal dydd neu seibiant gofal. Roedd hyn o ganlyniad i'r cymhlethdodau a oedd ynghlwm â darparu gwasanaethau mewn modd diogel a bodloni Canllawiau Covid-19 Llywodraeth Cymru i leihau lledaeniad y feirws a chadw pobl yn ddiogel.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

I gefnogi ein gofalwyr, ychwanegwyd gwybodaeth mewn perthynas â Covid-19 i ofalwyr ar wefan Cyngor Sir Ddinbych a threfnu i ofalwyr gael mynediad at Gyfarpar Diogelu Personol o storfa'r Awdurdod Lleol. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion hefyd wedi cefnogi gofalwyr unigol â datrysiadau megis gliniaduron a dyfeisiau cyfryngau digidol eraill er mwyn cadw mewn cysylltiad a lleihau unigrwydd.

Sicrhawyd bod asesiadau gofalwyr yn parhau, ond bu'n rhaid gwneud hyn mewn ffordd wahanol gan nad oedd modd i ni bob amser gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb, felly cynhaliwyd y rhain drwy dechnoleg ddigidol neu dros y ffôn. Mae Un Pwynt Mynediad a GOGDdC wedi parhau i ddarparu cardiau argyfwng a chefnogi gofalwyr i roi cynlluniau wrth gefn ar waith.

Parhaodd y Gweithiwr Gofalwyr Iach i ymdrin ag ystod o atgyfeiriadau, er mwyn cynnal a gwella lles meddyliol a chorfforol gofalwyr. Rydym hefyd wedi parhau i rannu cyfleodd i ofalwyr a'u hannog i fynychu digwyddiadau a gweithgareddau hyfforddiant ar-lein.

Astudiaeth Achos:

Roedd gofalwr yn wynebu argyfwng pan aeth ei gŵr yn sâl â Covid-19 a hithau'n gofalu am aelodau hŷn o'r teulu ar ei phen ei hun. Gan nad oedd ei gŵr mewn cyflogaeth sefydlog, cafodd hyn effaith ar eu sefyllfa ariannol. Gwnaethpwyd atgyfeiriad at Asesydd Gofalwyr GOGDdC a rhoddwyd y gefnogaeth ganlynol ar waith:

- Atgyfeiriad at Gyngor ar Bopeth Sir Ddinbych i gwblhau gwiriad budd-daliadau llawn a chynnig cyngor mewn perthynas â chyflogaeth.
- Cod Argyfwng Pontio'r Bwlch i gefnogi'r gofalwr â'r cynnydd yn eu cyfrifoldebau gofalu
- Grant gofalwyr i brynu peiriant golchi mwy i helpu â'r gwaith golchi dillad i'r teulu.
- Atgyfeiriad at y gwasanaeth cwnsela i dderbyn chwe sesiwn i drafod lefelau straen mewn perthynas â'r rôl gofalu a salwch ei gŵr. Roedd y gofalwr yn ei chael yn anodd ymdopi â'r holl waith a'r ofnau am y dyfodol.
- Cynllun argyfwng i gefnogi â straen cyffredinol a sicrhau bod gan y gofalwr popeth a oedd ei angen arni.
- Cais i'r panel ei awdurdodi am wasanaeth eistedd gyda'r unigolyn

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Roedd y gofalwr yn teimlo ei bod wedi colli rheolaeth dros ei bywyd, roedd hi'n teimlo dan straen ac yn bryderus am yr holl bethau yr oedd hi'n ceisio eu rheoli, ac roedd hyn yn gwneud iddi deimlo'n sâl. Unwaith y dechreuodd dderbyn cefnogaeth gan GOGDdC, roedd hi'n teimlo ei bod yn gwybod at pwy y gallai hi droi. Roedd hi'n gwerthfawrogi'r holl gefnogaeth y mae hi wedi'i derbyn i'w helpu â'i rôl gofalu a nododd ei bod bellach wedi adennill rheolaeth dros ei bywyd a'i bod yn gallu ymdopi unwaith eto. Dywedodd ei bod bron â chyrraedd pen ei thennyn ac nad oedd hi wedi gallu ymgysylltu â neb o'r blaen.

Cyflwynodd Addysg a Gwasanaethau Plant gais llwyddiannus am gyllid i ddatblygu cerdyn adnabod Gofalwyr Ifanc, sydd bellach wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth ag Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru, y Trydydd Sector a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Cynhaliwyd digwyddiad lansio ar-lein ar 16 Mawrth 2021 gan Glwb Pêl-droed Wrecsam.

O fewn ein hadran Addysg a Gwasanaethau Plant, nodwyd yr angen am ragor o gyfathrebu ag asiantaethau partner gan bob parti yn fuan yn ystod y pandemig, gan gydnabod y byddai penderfyniadau a wneir mewn un asiantaeth yn cael effaith ar waith pobl eraill.

I'r perwyl hwn, cynhaliwyd cyfarfodydd wythnosol gyda chydweithwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Heddlu Gogledd Cymru, lle rhennir cynlluniau darpariaeth gwasanaeth, materion sy'n codi a blaenoriaethau gwasanaeth. Wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo Covid-19 ddechrau llacio, nid yw partneriaid wedi bod yn cwrdd mor rheolaidd, ond mae'r ymrwymiad i waith partneriaeth cryf yn parhau ac fe'i hyrwyddir gan bawb.

Ym mis Mawrth 2020, er mwyn paratoi ar gyfer y posibilrwydd o gau ysgolion yn genedlaethol, roedd gofyn i ysgolion ddarparu manylion y disgyblion a oedd wedi'u nodi fel plant diamddiffyn. Ystyriwyd y rhestr hon gan staff ar draws y sector Addysg a Gwasanaethau Plant.

Roedd pob enw wedi eu croes-gyfeirio gyda chronfa ddata cleientiaid y Gwasanaethau Plant a nodwyd yr wybodaeth berthnasol. Rhoddwyd cynlluniau ar waith ar gyfer pob un o'r plant a nodwyd er mwyn cadw cysylltiad dros y cyfnod clo a arweiniodd at gau ysgolion, gan ddefnyddio staff ar draws y sector Addysg a Gwasanaethau Plant yn ogystal â staff ysgolion. Cytunwyd hefyd ar broses uwchgyfeirio pe bai problemau'n codi mewn perthynas â chysylltu â phlant diamddiffyn.

Yn ystod y cyfnod clo cyntaf pan roedd ysgolion ar gau, llwyddwyd i ohirio addysg, ond roedd modd cynnig gofal plant i blant diamddiffyn mewn ysgolion.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Fe wnaeth Sir Ddinbych, yn yr un modd â nifer o awdurdodau, ddewis defnyddio dull canolfan, gan agor nifer fechan o ysgolion i ddisgyblion diamddiffyn a phlant gweithwyr allweddol. Cytunwyd ar lwybr ar draws Addysg a Gwasanaethau Plant i sicrhau bod achosion agored yn derbyn llefydd mewn canolfannau ysgol a bod plant diamddiffyn yn cael eu hasesu'n briodol i sicrhau bod llefydd ar gael i'r rheiny sydd fwyaf eu hangen.

Parhaom i gyfathrebu gyda'n hysgolion, a chynnal gwasanaethau i blant diamddiffyn dros y cyfnod yr oedd yr ysgolion ar gau, ac rydym wedi gweithio mewn partneriaeth gyda'n hysgolion i gynnig cefnogaeth barhaus.

Yn ystod y cyfnod diweddaraf o gau ysgolion, ni fu'n rhaid gohirio addysg. Yn wahanol i'r cyfnod cyntaf o gau ysgolion, yr ysgol oedd yn gyfrifol am benderfynu pwy oedd yn gymwys ac yn cael cynnig addysg wyneb yn wyneb. Cytunwyd ar system lle roedd ysgolion yn rhannu eu rhestrau o blant a oedd yn derbyn addysg wyneb yn wyneb gyda Gwasanaethau Plant drwy gyfeiriad e-bost arbennig. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod gofal cymdeithasol yn ymwybodol o unrhyw blant diamddiffyn nad ydynt o bosibl yn cael mynediad at leoedd ysgolion dynodedig. Mae ysgolion hefyd wedi rhannu eu rhestrau o ddisgyblion sy'n hunan-ynysu yn sgil achosion o Covid-19 o fewn yr ysgol. Eto, fe wnaeth hyn sicrhau bod gofal cymdeithasol yn gallu cynnig cyngor a chymorth ychwanegol i deuluoedd diamddiffyn yn ystod y cyfnod hwn.

Cynhelir briff wythnosol i benaethiaid dan arweiniad y Pennaeth Addysg Dros Dro. Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Plant Dros Dro ac Uwch Reolwyr eraill o fewn Addysg Gwasanaethau Plant hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd hyn. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi bod yn amhrisiadwy ac mae disgwyl iddynt barhau ar ôl y pandemig.

Sicrhawyd cyllid drwy Raglen Drawsnewid Plant a Phobl Ifanc ar gyfer Tîm Aml Ddisgyblaeth, gwaith ar y cyd rhwng Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r tîm yn cynnwys seicolegydd clinigol, dau weithiwr cymdeithasol therapiwtig, dau weithiwr cefnogi teuluoedd therapiwtig, swyddog gweinyddol, rheolwr tîm ac yn derbyn cefnogaeth gan reolwr gwasanaeth.

Bydd y Tîm Aml Ddisgyblaeth yn gweithio mewn modd therapiwtig gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd o fewn y ganolfan asesu plant rhanbarthol (Bwthyn Y Ddôl) pan fydd y gwaith ar y cyfleuster hwn wedi'i gwblhau neu o fewn lleoliadau cymunedol lle bo hynny'n briodol.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Prif nod y Tîm Aml Ddisgyblaeth yw cefnogi plant i aros gyda'u teulu neu darddiad, lle bynnag y bo hynny'n ddiogel. Bydd gan bob achos fformiwleiddiad clinigol, a arweinir gan brif seicolegydd gyda mewnbwn gan y tîm cyfan. Bydd y fformiwleiddiad yn arwain yr ymyraethau yn seiliedig ar dystiolaeth a ddarperir gan aelodau tîm cytunedig. Bydd yr ymyraethau hyn yn destun adolygiad ac yn cael eu diwygio i sicrhau gymaint o fuddion â phosibl i'r plentyn a'r teulu.

Dyma rai pethau sydd eto i'w cwblhau

Adolygu cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau amgen, rhannu gwybodaeth o'r mentrau Micro a'r prosiect Catalydd Cymunedol, gyda gofalwyr a sefydliadau gofalwyr.
Adolygu ein cynnig Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth gan anelu at gynyddu annibyniaeth a chadernid ymysg grwpiau anodd eu cyrraedd.

c) Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

Dyma ddywedom ni y byddwn yn ei wneud

- Sicrhau bod pob ymarferwr yn bodloni'r dyddiad cau o 7 diwrnod i gwblhau ymholiadau diogelu.
- Sicrhau bod y thema Diogelu wedi'i wreiddio yn arferion pawb, gan gynnwys unrhyw wersi a ddysgwyd o archwiliadau Diogelu a / neu Adolygiadau Ymarfer Oedolion.
- Sefydlu'r Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan diwygiedig ar draws Gwasanaethau Plant.

Dyma rydym wedi'i wneud a'i gyflawni

Cwblhawyd 99.2% o ymholiadau amddiffyn oedolion o fewn yr amserlenni statudol – cynnydd o 8% o'i gymharu â'r llynedd.
O'r plant hynny a oedd wedi'u cynnwys ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn gasglu, y nifer a oedd wedi'u cofrestru'n flaenorol dan unrhyw gategori, ar unrhyw bryd yn ystod y deuddeg mis. Ffigwr Cyngor Sir Ddinbych oedd 1.
Cyfanswm y dyddiau ar y gofrestr amddiffyn plant ar gyfer plant a dynnwyd oddi ar y gofrestr yn ystod y flwyddyn = 36,581 a chyfanswm y plant a dynnwyd oddi ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn = 82. Mae hyn yn rhoi cyfartaledd o 446 diwrnod i ni. Wedi cynyddu o 311 diwrnod yn y flwyddyn gynt.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Mae cyfrifoldebau diogelu wedi parhau drwy gydol y pandemig Covid-19, gydag atgyfeiriadau newydd yn cael eu gweithredu o fewn 24 awr ac ymweliadau neu asesiadau uniongyrchol yn cael eu cwblhau yn ôl yr angen, gan gadw at y mesurau iechyd a diogelwch priodol.

Yn ystod 2019-20 cyflwynwyd y gofyniad i weithwyr proffesiynol yn ein Timau Gwasanaethau Gweithredol mewn Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion gwblhau 2 ddarn ymarfer myfyriol dros y flwyddyn, gydag o leiaf un ohonynt â ffocws diogelu.

Astudiaeth Achos:

Asesiad Effeithiol ac Ymatebol o Anghenion Gofal a Chefnogaeth yn ystod y cyfnod clo – Hanes Ben

Drwy gydol y pandemig, rydym wedi ymestyn ein ‘sgwrs beth sy’n bwysig, yn seiliedig ar gryfderau’ gyda dinasyddion a gofalwyr i fesur eu gwybodaeth, sgiliau a’u mynediad at TG.

Roedd Ben yn derbyn gofal a chefnogaeth ffurfiol. Trefnwyd cyfarpar, technoleg gynorthwyol a chefnogaeth i’w wraig dros y ffôn. Yn ystod yr asesiad fideo ohono’n ceisio sefyll o’i gadair, nodwyd angen am ymweliad cartref gan y Therapydd Galwedigaethol. Fe wnaeth trefniadau gweithio o bell alluogi Ben i dderbyn asesiad yn brydlon a’i alluogi i aros yn ei gartref ei hun. Diolchodd y teulu i’r ymarferwyr a fu ynghlwm â’r gwaith hwn am fod mor drwyadl a chefnogol.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Diogelu oedd y flaenoriaeth drwy gydol 2020-21 o fewn yr adran Addysg a Gwasanaethau Plant. Mae pob atgyfeiriad newydd at yr adran wedi parhau i gael eu gweithredu o fewn 24 awr, gydag ymweliadau ac asesiadau amddiffyn plant yn parhau.

Mae pob achos agored o fewn Gwasanaethau Plant yn cael eu hasesu'n rheolaidd am risgiau er mwyn penderfynu sut i reoli cysylltiadau a rhoi cynlluniau ar waith mewn perthynas â chyfathrebu parhaus.

Parhawyd ag ymweliadau wyneb yn wyneb ar gyfer achosion risg uchel gyda staff yn cadw at y cyngor iechyd a diogelwch priodol a chynhaliwyd cyfarfodydd ar-lein i'r achosion risg isel.

Yn dilyn y Panel Camfanteisio, mae Gwasanaeth Therapiwtig Sir Ddinbych wedi bod yn datblygu gwaith grŵp ar gyfer rhieni'r plant a phobl ifanc hynny i'w hannog a'u galluogi i rannu eu profiadau.

Dyma rai pethau sydd eto i'w cwblhau

Parhau i sefydlu Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan i bob agwedd o Wasanaethau Plant.
Sicrhau bod Trefniadau Diogelu Rhyddid yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

d) Annog a helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

Dyma ddywedom ni y byddwn yn ei wneud

- Adeiladu ar gysylltiadau presennol a datblygu cysylltiadau gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, Sir Ddinbych yn Gweithio a chyflogwyr posibl eraill i greu cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith i bobl ddiamddiffyn iau.
- Gwella mynediad, sgiliau a hyder dinasyddion diamddiffyn a allai elwa o ddatrysiadau gofal a chefnogaeth sy'n seiliedig ar dechnoleg ddigidol.
- Gweithredu'r Prosiect Symud Gydag Urddas.

Dyma rydym wedi'i wneud a'i gyflawni

Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth, roedd 4.69% o blant sy'n derbyn gofal wedi profi un neu fwy o newidiadau yn yr ysgol yn ystod cyfnodau o dderbyn gofal nad oeddent o ganlyniad i drefniadau pontio. Mae hyn yn is na'r ffigwr o 11% yn y flwyddyn gynt.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Canran y plant yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 a 4 – Nid yw'r data hwn ar gael eleni yn sgil y cyfnod clo Covid-19 a gan fod ysgolion wedi bod ar gau am ran helaeth o'r flwyddyn.

Gan fod llyfrgelloedd wedi cau, bu'n rhaid i 'Bwyntiau Siarad' Sir Ddinbych fynd ar-lein, gan ddarparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth drwy linell ffôn arbennig yn UPM. Pan roedd yr argyfwng ar ei waethaf, roedd y gwasanaeth yn ymateb i 240 o alwadau'r wythnos ac yn dilyn sgwrs 'beth sy'n bwysig, yn seiliedig ar gryfderau', roedd y gefnogaeth a ddarparwyd yn cynnwys cyflenwi bwyd, presgripsiynau a nwyddau hanfodol eraill ac atgyfeiriad at y gwasanaeth cyfeillio dros y ffôn a grëwyd i gefnogi dinasyddion sy'n profi arwahanrwydd cymdeithasol.

Fe wnaeth Cyngor Sir Ddinbych adleoli 114 o staff i ffonio'r 10,361 o ddinasyddion yn Sir Ddinbych a oedd wedi derbyn llythyrau gwarchod i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gefnogaeth a oedd ar gael iddynt yn ystod y cyfnod clo. Cynhaliwyd 240 o ymweliadau â chartrefi dinasyddion nad oedd modd cysylltu â nhw dros y ffôn ac atgyfeiriwyd 1,300 o ddinasyddion at gymorth parhaus.

Ar draws ein Gwasanaethau Gweithredol, mae timau wedi bod yn ffonio i fonitro a chefnogi lles dinasyddion a gofalwyr sydd ar hyn o bryd yn agored i'w gwasanaeth.

Er mwyn lleihau arwahanrwydd cymdeithasol a pharhau i gefnogi ein dinasyddion sydd ag anghenion gofal is, cyflwynom brosiect gwirfoddoli'n gynnar o fewn y cyfnod clo Covid-19 cyntaf. Mae'r Prosiect wedi llwyddo i annog a helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas. Ar 21 Chwefror, roedd 24 o wirfoddolwyr yn parhau i weithio gyda ni ac rydym yn hyderus y bydd nifer ohonynt yn parhau yn dilyn Covid-19. Mae ein gwirfoddolwyr yn cynnwys glanhawr ysgol, gweithiwr wedi'i adleoli o Easyjet, Prif Swyddog Gweithredol wedi ymddeol, gyrrwr tacsi a Meddyg Teulu wedi ymddeol, a llawer mwy. Mae ein gwirfoddolwr ieuengaf yn 16 oed a'r hynaf yn eu 70au. Drwy lwyddiant parhaus y Prosiect Gwirfoddoli, ein nod yw ei ymgorffori i'n Timau Adnoddau Cymunedol.

Byddwn yn parhau i recriwtio yn seiliedig ar arfer orau dros y 12 mis diwethaf, gan gynnwys:

- Drwy ein Llyw-wyr Cymunedol;
- Ymgyrchoedd recriwtio AD drwy'r Cyfryngau Cymdeithasol;

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

- Ar lafar – gwelodd un ddynes faint roedd ei ffrind wedi elwa o wirfoddoli a rhoddodd ei henw i lawr i helpu.
- Cynlluniau hyrwyddo i'r dyfodol drwy Bwyntiau Siarad, dyddiau recriwtio a chyfathrebu ymysg staff mewnol.

Dyma rai enghreifftiau o waith ein Gwirfoddolwyr:

- Siopa
- Ymarferion cerdded ysgafn
- Gwaith o amgylch y tŷ
- Mynd â chŵn am dro
- Garddio
- Helpu i ddarllen post a thalu biliau
- Helpu i baratoi prydau
- Helpu pobl i sefydlu gwasanaethau siopa ar-lein

Pobl sydd wedi elwa o'r gefnogaeth gan wirfoddolwyr:

- Mam ifanc gyda phlant bach – cymorth â gwneud yr ardd yn ddiogel iddi hi a'i phlant chwarae, ac anogaeth a chefnogaeth i fwynhau bod yn fam eto yn dilyn tor-perthynas. Mae'r fam bellach yn mwynhau mynd â'i phlant i'r parc ac ati, heb gefnogaeth.
- Mr R, 92 oed. Cefnogaeth i drwsio ei sgwter a magu hyder i fynd allan ar y sgwter eto.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Parhawyd â'r prosiect Symud gydag Urddas yn ystod y pandemig Covid-19, sy'n anelu at wella ansawdd gofal a sicrhau mynediad at y cyfarpar cywir i sicrhau bod tasgau'n cael eu cwblhau mewn modd diogel, ond nid ar yr un raddfa â'r oeddem wedi'i obeithio.

Am sawl blwyddyn, roedd pobl oedd angen cael eu codi ar beiriant neu bobl oedd yn derbyn gofal yn y gwely wedi bod angen cymorth gan ddau unigolyn. Yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae cynlluniau a diogelwch cyfarpar arbenigol a ddefnyddir i helpu pobl i symud wedi datblygu i raddau helaeth. Felly, mewn nifer o achosion, mae modd i un gofalwr ddarparu gofal i unigolyn yn ddiogel, ac i rai pobl, bydd hyn yn eu galluogi i barhau i dderbyn gofal gan aelod o'r teulu yn ddiogel, os ydynt yn dymuno.

Dywedodd un unigolyn: "Rwy'n teimlo fod gen i fwy o hyder, dewis a rheolaeth a gwell perthynas gyda fy ngweithiwr gofal, mwy o urddas a phreifatrwydd."

Darparwyd hyfforddiant arbenigol ac achrededig rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020 i 36 aelod o staff ar draws iechyd, darparwyr gofal cartref a staff Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a chwblhawyd yr hyfforddiant hwn cyn dechrau'r pandemig.

Yn anffodus, nid oedd modd cynnal y sgiliau hyn y tro hwn ac mae nifer o staff asiantaeth gofal cartref wedi symud o'u swyddi, gan adael rhai asiantaethau heb gefnogaeth ddyddiol gan unigolion sydd wedi derbyn hyfforddiant priodol.

Rhagwelir y bydd yr hyfforddiant yn ail-ddechrau yn ystod 2021 unwaith y caniateir i ni ddarparu hyfforddiant. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu i aelodau eraill o staff yn fuan wedyn.

Mae buddsoddiadau wedi'u gwneud i sicrhau bod yr offer sydd ei angen ar gael, gan sicrhau cyn lleied o oedi â phosibl i ddinasyddion.

Ystyrir y dull hwn yn gyntaf wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty, fodd bynnag, yn sgil anawsterau mewn perthynas â darparu hyfforddiant wyneb yn wyneb i asiantaethau gofal cartref, mae wedi bod yn anodd iawn ail-gyflwyno ffyrdd newydd o weithio dros y 12 mis diwethaf.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Drwy ein Prosiect Trawsnewid Rhanbarthol, rydym wedi gweld camau mawr yn cael eu cymryd drwy ddefnyddio technoleg i gynorthwyo nifer o'n dinasyddion sydd ag anableddau dysgu i aros mewn cysylltiad a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn ystod cyfnod clo COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys darparu iPads, watshis epilepsi clyfar, Fitbits, iPads, pyrth ar-lein a chloriannau clyfar a brynwyd drwy'r Gronfa Trawsnewid Cymunedau.

Drwy gydweithio â'n Tîm Cyfleoedd Dydd a Gwaith, trefnwyd sesiynau ar-lein i helpu'r rheini nad ydynt bellach yn gallu mynychu gwasanaethau dydd, fel grŵp Fitbits a llesiant ar-lein gyda nyrsys cymunedol a grŵp hunaneiriolaeth Sir Ddinbych. Roedd y Tîm Rhanbarthol hefyd wedi helpu Cartref Ni i dreialu ap cynllunio gofal mewn prosiectau Byw yn y Gymuned. Roedd yr ap cyfathrebu a chynllunio gofal 'Here to There' wedi'i dreialu hefyd yn Sir Ddinbych.

Y Tîm Trawsnewid Rhanbarthol sydd wedi dylunio'r cerdyn enfys. Roedd teuluoedd a gofalwyr sy'n cynorthwyo unigolion ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth yn gallu dangos y cerdyn i'r heddlu pan oedd angen iddynt deithio y tu allan i'w hardal a/neu ymarfer yn amlach nag unwaith y diwrnod i gynnal eu lles. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi derbyn y defnydd o'r cerdyn yn ffurfiol ledled y Gogledd a dosbarthwyd mwy na 1300 ohonynt i ddinasyddion.



Mae staff gofal cymdeithasol o fewn Addysg a Gwasanaethau Plant wedi nodi Plant Sy'n Derbyn Gofal a Phobl Sy'n Gadael Gofal sydd angen technoleg ychwanegol er mwyn cynnal cyfarfodydd ar-lein a/neu gysylltu â'r teulu.

Darparwyd technoleg briodol gan ddefnyddio cyllidau grant lle bo hynny'n berthnasol. Yn ogystal â hynny, darparwyd offer ychwanegol i rai gofalwyr maeth a oedd yn gofalu am nifer o blant i sicrhau bod gan bob plentyn o fewn yr aelwyd fynediad unigol at dechnoleg.

Mae Gwasanaethau Plant wedi gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Ymgynghori Personol, a ddarperir gan Barnardo's, gan fonitro effaith y cyfnod clo ar les pobl sy'n gadael gofal. Canolbwyntiwyd yn bennaf ar yr effaith ar eu cyflogaeth, hyfforddiant / addysg a thai. Rydym wedi casglu ystadegau yn wythnosol ac wedi ymateb i'r anghenion cynyddol yn ôl yr angen.

Dyma rai pethau sydd eto i'w cwblhau

Cynnal ac ymestyn y Prosiect Gwirfoddolwyr llwyddiannus a sefydlwyd mewn ymateb i Covid-19.
Ymgorffori'r ethos Symud Gydag Urddas i'r holl wasanaethau a gaiff eu darparu a'u comisiynu gan y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a hefyd sicrhau bod staff perthnasol yn meddu ar y sgiliau priodol i fedru asesu neu ddarparu'r gofal cywir.
Adeiladu ar y gwaith a gwblhawyd hyd yma a datblygu Technolegau Cynorthwyol ymhellach i gynyddu mynediad a gwybodaeth o fewn Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a'r gymuned.

e) Helpu pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach

Dyma ddywedom ni y byddwn yn ei wneud

- Adolygu'r ddarpariaeth gofal plant a gofal seibiant i rieni â phlant sydd ag anghenion ychwanegol a chymhleth, a datblygu'r ddarpariaeth o fewn lleoliadau gofal plant presennol.
- Datblygu Gwasanaeth Ffiniau Gofal gwell ac ehangach, gan ganolbwyntio ar gefnogi plant i aros yn eu cartref neu ddychwelyd adref fel rhan o'r strategaeth er mwyn lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn modd diogel.
- Datblygu ac adolygu gwasanaethau sy'n bodloni anghenion gofalwyr Sir Ddinbych, gweithio gyda phartneriaid a gofalwyr i nodi / lleihau bylchau mewn cefnogaeth ymhellach.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Dyma rydym wedi'i wneud a'i gyflawni.

Dychwelodd 16 o blant adref o gartrefi gofal yn ystod y flwyddyn.
Ar 31 Mawrth, roedd 12 o blant sy'n derbyn gofal wedi bod mewn tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn

O fewn Addysg a Gwasanaethau Plant, mae'r Tîm Therapiwtig wedi datblygu Grŵp Rhianta i weithio'n uniongyrchol gyda rhieni plant a phobl ifanc sydd wedi'u hasesu fel rhai mewn perygl uchel o gamfanteisio. Mae'r Ymarferwyr Therapiwtig yn defnyddio Model PACE (Playfulness, Acceptance, Curiosity, Empathy).

Mae'n seiliedig ar ddamcaniaeth ymlyniad ac ymchwil a dyma'r prif fodel ar gyfer datblygu perthynas a datrys trawma.

Parhawyd â'r cynnig uwch gan ein Gwasanaeth Ffiniau Gofal drwy gydol y pandemig Covid-19, a pharhawyd â'r gwaith therapiwtig â phlant a theuluoedd ar-lein ac wyneb yn wyneb.

Mae'r tîm amlasiantaeth Bwthyn y Ddôl rhanbarthol wedi datblygu gwaith ataliol yn y rhanbarth ymhellach, gyda'r tîm yn cynnig ymyrraeth unigryw, dan arweiniad fformiwleiddiad clinigol i achosion risg uchel cymhleth.

Dyfyniadau am waith Bwthyn Y Ddôl;

- Ar 9 Tachwedd 2020, lansiwyd ein grŵp rhieni, ac rydym yn cyfarfod unwaith bob pythefnos. Rydym wedi derbyn cefnogaeth wych gan gydweithwyr eraill o fewn gwasanaethau sydd hefyd yn eirioli dros rieni a phartneriaid.
- Mae arnom ni eisiau gwadd siaradwyr o unrhyw wasanaethau sy'n gweithio gyda phobl ifanc er mwyn addysgu rhieni am beth yn union y mae'r rôl yn ei chynnwys. Yn aml iawn, nid yw'r rhieni hyn yn siŵr beth mae'r gweithwyr proffesiynol hyn yn ei wneud a sut maent yn gallu eu cefnogi nhw a'u plant. Mae'r siaradwyr gwadd yn hollbwysig i'n grŵp. Rydym wedi cael amrywiaeth o siaradwyr gwahanol sy'n credu yn y Dull Diogelu Rhanbarthol a'r rôl allweddol y mae rhieni'n ei chwarae wrth ddiogelu eu plant.
- Yn yr amgylchedd diogel hwn yr ydym wedi'i greu, mae rhieni'n teimlo'n gyfforddus i ofyn cwestiynau i'r gweithwyr proffesiynol a darganfod beth yn union yw eu rôl yn achos eu plentyn. Mae'r grŵp yn gefnogol iawn o'i gilydd a bob amser yn holi am eu lles. Ar yr wythnos nad ydym yn cynnal y grŵp, rydym yn rhoi cyfle i rieni gael sgwrs breifat gydag

un ohonom. Mae'r angen yn bodoli yn arbennig os yw'r teulu'n wynebu argyfwng. Er mai dim ond ym mis Tachwedd y dechreuwyd hyn, rydym wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r rhieni a'r gofalwyr hynny. Maent yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth well, bod rhywun yn gwrando arnynt a'u bod yn fwy gwybodus am lawer o bethau.

- Mae ein rhieni'n wych. Mae hon yn rhaglen addysgiadol, ac i ni, mae'n ymwneud â diogelu. Nid diogelu'r plentyn yn unig, ond y teulu cyfan. Y bobl orau i ddiogelu'r plentyn yw'r rheini. Mae annog ein rhieni wedi gwneud gwahaniaeth enfawr. Pan nad oes gennym y wybodaeth a'r addysg am bethau, mae'r pethau hynny'n codi ofn arnom. Ond mae'r grŵp hwn a'r siwrnai yr ydym yn ei chymryd yn galluogi rhieni i ddysgu am gamfanteisio'n rhywiol ar blant ac mae'n golygu eu bod mewn sefyllfa well i gefnogi a diogelu eu plant.

Mae tîm aml-ddisgyblaeth Bwthyn y Ddôl yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd ar ymyl gofal ac sy'n wynebu risg o gael eu derbyn i ofal am nad yw eu rhiant neu ofalwr yn gallu sicrhau dynameg deuluol iach am wahanol resymau.

Bydd y tîm yn canolbwyntio'n gyntaf ar gwblhau asesiad cyfannol o gryfderau ac anawsterau, risgiau ac anghenion drwy broses ymgynghori, er mwyn argymell rhaglen o ymyriadau.



Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Datblygwyd y model gofal drwy dîm aml-asiantaeth ac mae'n canolbwyntio ar y gofynion ac anghenion penodol sydd gan blant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych a Chonwy.

Mae'r dull gweithredu arloesol hwn, sy'n dilyn model gofal seiliedig ar dystiolaeth, ynghyd â'r ymarfer myfyriol a fabwysiadwyd gan y tîm, wedi arwain eisoes at ganlyniadau cadarnhaol iawn. Mae'r pump o blant/pobl ifanc a gymerodd ran wedi cwblhau'r ymyriad yn llwyddiannus ac wedi aros gartref gyda'u teulu.

O ganlyniad i roi lle canolog i'r plentyn neu berson ifanc yn yr asesiad clinigol a defnyddio dull sy'n cynnwys y teulu cyfan, cafwyd trafodaethau cydweithredol rheolaidd rhwng nifer o asiantaethau ac mae hyn wedi hybu gwaith mewn partneriaeth rhwng yr holl asiantaethau.

Cafwyd caniatâd cynllunio ac mae contractwyr wedi'u penodi ar gyfer canolfan asesu breswyl Bwthyn y Ddôl.

Bydd y ganolfan fodern hon yn cynnwys tri adeilad ar wahân a fydd yn darparu llety ar gyfer pedwar o blant neu bobl ifanc cyn eu hasesu, llety tymor byr sydd heb ei gynllunio ymlaen llaw i ddau o blant neu bobl ifanc, a chanolfan asesu a darparu ymyriadau. Disgwylir y bydd y datblygiad wedi'i gwblhau yn ystod 2022.

Nodwyd Gofalwyr newydd drwy alwadau gwarchod Awdurdodau Lleol ac mae galwadau Cadw Mewn Cysylltiad Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru hefyd wedi darparu cyswllt parhaus a rheolaidd gyda gofalwyr unig yn ystod y cyfnod clo.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Sefydlwyd prosiect Cefnogi Gofalwyr gyda GOGDdC a Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych, gan adeiladu ar y galwadau cefnogol yn ystod y pandemig a thargedu gofalwyr cudd mewn ardaloedd gwledig.

Dull arloesol arall a weithredwyd yn ystod y cyfnod clo oedd Gwthio i Siarad, sef prosiect ar y cyd â Chyngor Sir Conwy sy'n cynnig cyfle i ofalwyr gael sgwrs a rhannu eu profiadau. Roedd hyn yn caniatáu i ofalwyr a oedd yn teimlo'n unig ac yn ynysig gadw mewn cysylltiad.

Cynllun talebau Pontio'r Bwlch – llwyddwyd i gynnal defnydd o'r cynllun ac mae darparwyr gofal cartref wedi parhau i ddarparu'r gwasanaeth oni bai bod aelod o'r aelwyd yn dangos symptomau.

Astudiaeth Achos Gofalwr:

Mae Terry yn gofalu am ei wraig yn llawn amser, ac mae'r ddau ar incwm isel, sefydlog. Yn ystod y cyfnod clo, bu'n rhaid i Terry ddefnyddio'r banc bwyd lleol sawl gwaith ac roedd gwirfoddolwr yn y banc yn credu efallai y byddai Terry'n elwa o sgwrs â Llywiwr Cymunedol, felly gyda chaniatâd Terry, gwnaethpwyd atgyfeiriad. Fe wnaeth y Llywiwr Cymunedol ffonio Terry i gael sgwrs am ei amgylchiadau. Mewn modd gofalus a sensitif, archwiliwyd unrhyw faterion neu drafferthion yr oedd Terry neu ei wraig yn teimlo yr hoffent dderbyn cymorth â hwy. Dywedodd Terry ei fod ef a'i wraig yn gwarchod eu hunain gartref gan eu bod yn ofni Covid-19. Nid oedd wedi llwyddo i gael slot cyflenwi gyda'i archfarchnad arferol ac roeddent bron â rhedeg allan o fwyd, felly bu'n rhaid iddo gysylltu â'r banc bwyd am gymorth. Darparodd y Llywiwr Cymunedol wybodaeth am grŵp gwirfoddol lleol a allai helpu â siopa a mynd â'r ci am dro, ynghyd â rhestr o adnoddau siopa gan gynnwys archfarchnadoedd a oedd yn cynnig gwasanaethau i ddinasyddion diamddiffyn.

Synnodd Terry pan glywodd faint o bethau oedd ar gael ac roedd yn siomedig na wyddai am rai ohonynt yn gynt. Dywedodd hefyd ei fod yn bryderus gan eu bod wedi derbyn llythyr am gynnydd i'w bil ynni . Fe wnaeth y Llywiwr Cymunedol helpu Terry i gysylltu gydag Age Cymru, cynigwyd gwiriad budd-daliadau am ddim dros y ffon a rhoddwyd gwybod iddo am raglenni a gwasanaethau allai helpu i ostwng biliau ynni. Yn dilyn ei alwad cyntaf gyda'r Llywiwr Cymunedol, ni fu'n rhaid i Terry ddefnyddio'r banc bwyd ac mae bellach yn defnyddio archfarchnad gwahanol sy'n gallu cynnig slotiau cyflenwi blaenoriaeth iddo. Mae Terry a'i wraig yn y broses o ostwng eu biliau misol ac mewn cysylltiad eto â chefnogaeth i Ofalwyr.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Dyma rai pethau sydd eto i'w cwblhau

Parhau i weithio ar ddatblygu Sir Ddinbych i fod yn Gyngor Sy'n Dementia Gyfeillgar.
Parhau i adolygu a datblygu gwasanaethau sy'n bodloni anghenion gofalwyr yn Sir Ddinbych.
Er mwyn parhau i ddatblygu Bwthyn y Ddôl a'r dull aml-asiantaeth ar gyfer plant ar ymyl gofal.

f) Gweithio gyda phobl a'u helpu i wella eu lles economaidd, i gael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion

Dyma ddywedom ni y byddwn yn ei wneud

- Cyflwyno rhaglen Barod am Waith i ddatblygu sgiliau ar gyfer cyflogaeth pobl ifanc.
- Parhau i ddatblygu gwaith mewn perthynas â Thechnolegau Cynorthwyol.
- Gwella cefnogaeth i bobl ifanc sydd mewn perygl o ddigartrefedd drwy'r Llwybr Cadarnhaol Pobl Ifanc.

Dyma rydym wedi'i wneud a'i gyflawni

Cyfanswm y bobl sydd wedi gadael gofal ac wedi cwblhau o leiaf 3 mis yn olynol o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant o fewn a) 12 mis ers gadael gofal oedd 7 a b) 13-24 mis ers gadael gofal oedd 5
Roedd 2 o bobl sydd wedi gadael gofal wedi bod yn ddigartref yn ystod y flwyddyn o fewn 12 mis i adael gofal.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Prosiect Cyngor Sy'n Dementia Gyfeillgar

Mae ein gwaith i fod yn Gyngor sy'n Dementia Gyfeillgar wedi parhau dros y 12 mis diwethaf, er gwaethaf effaith y cyfyngiadau Covid-19. Ers derbyn cydnabyddiaeth gan y Gymdeithas Alzheimer's, rydym wedi cyflawni'r canlynol:

- Cwblhawyd y mwyafrif o'r gweithgareddau yn ein cynllun gweithredu;
- Rhannwyd arferion da ar draws gwasanaethau Cyngor Sir Ddinbych, drwy wybodaeth ar ein mewnrwyd staff (Linc);
- Hyrwyddwyd hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth am ddementia ar draws y Cyngor;
- Ymestynnwyd a chydgrynhowyd ein cysylltiadau gyda chymunedau a grwpiau sy'n deall dementia ar draws Sir Ddinbych a rhanbarth ehangach Gogledd Cymru.

Rydym ar hyn o bryd yn gweithio gyda phartneriaid i werthuso ein heffeithiolrwydd dros y flwyddyn gyntaf o gydnabyddiaeth gyda'r Gymdeithas Alzheimer's a dogfennu ein cynllun gwaith i'r dyfodol ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Ymarferwyr Gofal Cymdeithasol Dementia

Mae Ymarferwyr Gofal Cymdeithasol Dementia'n gweithio'n dda o fewn pob un o'r 4 Tîm Adnoddau Cymunedol. Maent yn gweithio gyda Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych ac mae Rheolwr Prosiect Sir Ddinbych Sy'n Dementia Gyfeillgar yn helpu i gefnogi datblygiad cymunedau Sy'n Dementia Gyfeillgar newydd yn Llangollen, y Rhyl a Rhuthun, yn ogystal â'r rhai presennol ym Mhrestatyn, Dinbych a Llanelwy.

Mae'r Gweithwyr Cefnogi Dementia yn y Timau Adnoddau Cymunedol wedi cryfhau ein perthynas a'n cysylltiadau gyda Gwasanaethau Iechyd Meddwl Pobl Hŷn a'r Clinig Cof. Mae'r Gweithwyr Cefnogi Dementia'n gweithio'n greadigol ac yn annibynnol, gan ddefnyddio eu hunain fel adnodd lle bo angen gan ddarparu dull 'tîm o amgylch yr unigolyn.' Maent yn defnyddio Fforymau Cymheiriaid a chyfarfodydd Clwstwr i rannu arbenigedd a gwybodaeth a darparu cyngor cyffredinol i aelodau'r Tîm Adnoddau Cymunedol.

.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Astudiaeth Achos: Yn sgil problemau'n ymwneud â'r cof, roedd Alice wedi bod yn cymryd gormod o feddyginiaeth, yn profi haint dro ar ôl tro, ac yn dibynnu ar gefnogaeth ddyddiol gan y teulu, ac roedd hyn yn achosi problemau difrifol yn ystod y cyfyngiadau Covid-19. Roedd y teulu'n ymweld â hi'n ddyddiol i sicrhau bod ganddi bryd wedi'i goginio a byddent yn aml yn gweld bod gwerth 2-3 diwrnod o dabledi wedi'u cymryd o becynnau pothellog eu mam, a bod ei chof a'i hiechyd yn dirywio, felly dechreuodd y teulu ystyried gofal preswyl. Gwnaethpwyd atgyfeiriad at Weithiwr Cefnogi Dementia a gynhaliodd drafodaethau â theulu Alice a'i hatgyfeirio at Glinig Cof. Yn dilyn hyn, roedd Alice yn derbyn galwad ffôn 30 munud i helpu gyda brecwast, diodydd a meddyginiaeth yn y bore, gosodwyd sêff allweddi iddi hefyd. Sylweddolwyd yn fuan nad oedd Alice yn rheoli ei meddyginiaeth, roedd y teulu hefyd yn cael trafferth ymweld â hi'n ddyddiol i helpu gyda hyn, felly cynyddwyd y galwadau cymorth i ddau alwad 30 munud y diwrnod. Mae iechyd cyffredinol Alice wedi gwella'n sylweddol, yn ogystal â'i lles – mae'r galwadau cymorth wedi helpu'r arwahanrwydd cymdeithasol yr oedd hi'n ei phrofi. "Rwyf mor falch. Mae'r galwadau'n gweithio'n dda iawn. Mae wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i ni fel teulu, rydym bellach yn gallu mwynhau'r amser a dreuliwn gyda hi, heb yr holl straen a'r pryderon"

Bu'n rhaid oedi'r gwaith oedd ar y gweill gennym mewn perthynas â phrosiect roboteg a mentrau eraill yn sgil y pandemig Covid-19. Fodd bynnag, yn fuan yn 2021, dechreuwyd ar y gwaith o roi'r technolegau cynorthwyol canlynol ar waith.

- Mae technoleg **Gweithgareddau Therapi Hel Atgofion Rhyngweithiol** yn anelu at ymestyn y gofal a ddarperir i bobl hŷn, pobl sy'n dioddef â dementia, cyflyrau iechyd meddwl, anafiadau acíwt i'r ymennydd ac anableddau dysgu fel modd o'u cefnogi a lleihau aflonyddwch meddwl, unigrwydd, iselder a deliriwm. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y systemau'n helpu i:
    a) Leihau codymau o hyd at 76.9%
    b) Lleihau'r angen am becynnau gofal costau uchel gan unigolyn neu unigolion.
    c) Cefnogi gwaith mapio gofal dementia
    d) Gwella profiad cleifion, teulu a staff i raddau helaeth
    e) Sicrhau gwelliannau sylweddol i gleifion â dementia nad ydynt yn gallu cysgu
    f) Cefnogi urddas, parch a lles i gleifion

g) Gwella ansawdd gofal sy'n canolbwyntio ar y claf a gaiff ei lywio gan anghenion clinigol.
h) Sicrhau rhyngweithio gwell rhwng yr unigolyn a'u gofalwyr a'u perthnasoedd

- **Roboteg Pepper –** Robot dynolffurf yw Pepper sy'n canfod emosiynau ac yn addasu ei ymddygiad yn unol â hynny. Mae'n gallu cofio nodweddion personoliaethau ymysg ei gysylltiadau rhyngweithiol. I ddechrau, bydd Pepper yn cael ei ddefnyddio i ymgysylltu â'r gymuned o fewn gofal uwch, codi ymwybyddiaeth a hwyluso gweithgareddau atgofion. Yn y cam nesaf o archwilio'r defnydd o roboteg gofal cymdeithasol, disgwylir y bydd prosiect i fynd i'r afael ag unigrwydd yn cael ei ystyried.

- Dyluniwyd **Morlo PARO** fel, ac mae tystiolaeth yn dangos fod y morlo-delyn ifanc yn, robot therapiwtig rhyngweithiol sy'n rhoi boddhad a chyfoeth seicolegol i ddinasyddion, yn arbennig os ydynt yn profi unrhyw rai o'r canlynol:
  a) Dementia, pwysau emosiynol ac ymddygiadol
  b) Anhwylderau gwybyddol
  c) Anhwylderau datblygiadol
  d) Anhwylder Straen Wedi Trawma ac arwahanrwydd cymdeithasol

- **REM PODS –** dull rhyngweithiol arall i hel atgofion Mae'n cynnwys teledu LCD (dangosiad grisial hylif) o dan gochl ffenestr trên. Caiff yr ystafell ei thrawsnewid i gyfleu coetsh trên ac mae hyn yn rhoi cyfle i bobl sy'n byw â dementia a dinasyddion ag anhwylderau gwybyddol fwynhau'r profiad o fynd ar drên, a hynny drwy arddangos ffilm o gefn gwlad ar y sgrin LCD.

Hwyluswyd gweithrediad y technolegau uchod drwy greu tîm prosiect bychan o'r Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol, Datblygu'r Gweithlu a Gwasanaethau Darparwyr. Lluniwyd y dull hwn er mwyn dod â nifer o sgiliau ynghyd i sicrhau bod gwasanaeth cynhwysol yn cael ei ddarparu ar draws y ddarpariaeth gofal uwch a gofal mewnol. Mae disgwyl i'r gwaith ar y cyd greu ffordd newydd o weithio i sicrhau bod technolegau newydd yn cael eu harchwilio a'n bod yn cymryd pob cyfle posib i ymgysylltu â dinasyddion a staff i hyrwyddo'r defnydd o ddulliau wedi'u hunan-ariannu. Bydd hefyd yn gwella'r ddarpariaeth ynghyd â thechnolegau traddodiadol a sefydlwyd ar draws y gymuned.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Drwy gydol y cyfnod clo Covid-19, darparwyd cefnogaeth i bobl ifanc sydd mewn perygl o ddigartrefedd drwy gefnogaeth amlasiantaeth. Mae hyn yn cynnwys mewnbwn gan ein hadran Addysg a Gwasanaethau Plant, y Tîm Atal Digartrefedd a phartneriaid darparu megis, Prosiect Dyfodol Clwyd Alyn. Mae gwaith wedi parhau i adolygu darpariaeth gwasanaethau i'r bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o ddigartrefedd, ar draws gwahanol wasanaethau o fewn Cyngor Sir Ddinbych, a bydd ein Gwasanaethau Ieuenctid yn arwain ar y Llwybr Pobl Ifanc o 1 Ebrill 2021. Bydd y tîm yn cynnwys Gweithiwr Ieuenctid a Gweithiwr Cefnogi Ieuenctid Digartrefedd. Bydd y tîm yn blaenoriaethu pobl sy'n gadael gofal a Phlant Sy'n Derbyn Gofal.

Ar ddechrau'r pandemig Covid, cwblhawyd archwiliad gan y Gwasanaeth Maethu oedd yn mapio pob lleoliad oedd ar gael, ac unrhyw ofalwyr maeth oedd â'r gallu i gynnig llefydd ychwanegol mewn argyfwng, gan dderbyn efallai y byddai hyn yn galw am offer ychwanegol a newidiadau i statws cymeradwyaeth. Yn ogystal â hyn, tynnodd y Gwasanaeth Maethu sylw at y gofalwyr allai fod yn ddiamddiffyn oherwydd eu hanghenion iechyd eu hunain neu rai eu haelwyd (gan gynnwys Plant sy'n Derbyn Gofal). Mae'r Gwasanaeth Maethu wedi parhau i ymgysylltu â gwaith y Fframwaith Maethu Cenedlaethol, gan gynnwys y brand maethu cenedlaethol a'r ymgyrch recriwtio sydd ar y gweill.

Rydym wedi parhau i fedru cefnogi a gweithredu cynllun gofal yn effeithiol i'n plant ac wedi helpu plant i ddychwelyd adref lle bo hynny'n briodol. Mae gwaith wedi parhau i fynd rhagddo i symud plant sy'n derbyn gofal i leoliadau mabwysiadol, gan ddefnyddio canllawiau ac asesiadau risg a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Mae Paneli Mabwysiadu a Maethu wedi parhau i gael eu cynnal ar-lein, ac mae presenoldeb ymgeiswyr ac aelodau'r Panel wedi bod yn rhagorol.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Mae gweithwyr cymdeithasol wedi llwyddo i barhau i gynllunio ar gyfer sefydlogrwydd plant, gan symud rhai plant o gartrefi preswyl i ofal maeth, a phlant eraill i drefniadau gofal parhaol, cyflwyno gorchmynion gofal i blant sydd wedi'u lleoli â rhieni a chefnogi gofalwyr i gael gorchmynion gwarchodaeth arbennig.

Dyma rai pethau sydd eto i'w cwblhau

Ymgorffori'r Llwybr Pobl Ifanc i Wasanaethau Ieuenctid.
Gweithio gyda phartneriaid i ganolbwyntio ar recriwtio i lwybrau gofal a gyrfaol ar gyfer pobl ifanc

5. Sut rydym yn cyflawni ein gwaith

a) Ein gweithlu a sut rydym yn eu cefnogi yn eu rolau proffesiynol

Mae Llywydd ADSS Cymru, Nicola Stubbins wedi tynnu sylw at ddifrifoldeb y pwysau presennol ar weithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal ac wedi canmol y sector am ei ddyfeisgarwch, mewn adroddiad a gyhoeddwyd heddiw gan BBC Cymru.

Dywedodd y Llywydd, "Mae staff gofal cymdeithasol o dan bwysau mwy nag erioed o'r blaen ac, ar hyn o bryd, maen nhw o dan lawer mwy o bwysau nag y buon nhw erioed yn ystod y pandemig. Maen nhw wedi blino'n llwyr, ond maen nhw'n dal i fynd."

"Mae'r pwysau ar y gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau yn cynyddu o hyd ac, mewn rhai meysydd, dim ond rhai gwasanaethau hanfodol y gallwn ni eu cynnig – mae hynny'n groes i ddymuniad pawb sy'n gweithio yn y swydd hon, gorfod dewis rhwng pwy y gallwch a phwy na allwch eu helpu." Chwefror 2021

Darparu cymorth parhaus i'n staff yn ystod y pandemig Covid-19 oedd un o'n prif flaenoriaethau. Drwy gydweithio'n agos â'r tîm Adnoddau Dynol, rydym wedi dynodi nifer o adnoddau i gynorthwyo unigolion a sicrhau ein bod yn cynnal lles ein holl staff. Roedd nifer wedi'i chael yn anodd dygymod â'r effaith o weithio gartref heb ryngweithio agos â'u cydweithwyr ac, yn achos nifer o staff ein cartrefi gofal, bydd yr effaith o orfod delio ag achosion o Covid-19 yn para'n hir.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Roeddem wedi caffael a rhannu amrywiaeth o ddeunyddiau ar-lein, wedi trefnu mynediad i weithdai ac wedi rhedeg sesiynau anffurfiol i gadw mewn cysylltiad fel y sesiwn rithiol Te am Dri, a phan oedd y cyfyngiadau'n caniatáu, wedi cynnal sesiynau goruchwylio Cerdded a Siarad gyda rheolwyr llinell.

Datblygu'r Gweithlu

Yn ystod 2020 / 21, bu'n rhaid i ni ddefnyddio dull hollol newydd ar gyfer dysgu a datblygu'r gweithlu Gofal Cymdeithasol ar draws Sir Ddinbych. Nid oedd dysgu yn y dosbarth yn bosibl mwyach a bu'n rhaid darparu ein hyfforddiant ar-lein a defnyddio ein hystafell hyfforddi i storio Cyfarpar Diogelu Personol. Ar gyfer cyrsiau a oedd yn cynnwys goruchwyliaeth, defnyddiwyd dulliau dysgu cyfunol gan gwblhau'r elfen wyneb yn wyneb mewn modd diogel.

Mae ein Tîm Datblygu'r Gweithlu wedi parhau i gefnogi addysg a datblygiad ein gweithlu mewn nifer o wahanol ffyrdd, gan gynnwys:

- Rhannu gwybodaeth am adnoddau / hyfforddiant am ddim sy'n cefnogi dysgu.
- Darparu newyddlen Tîm Datblygu'r Gweithlu misol â gwybodaeth am ddarparwyr.
- Gweithio'n gyflym i greu mynediad digidol at ddeunydd hyfforddiant, gan ddefnyddio Canolfan Ddysgu Gofal Cymdeithasol Cymru, CCInform a SC-TV sydd i gyd wedi darparu hyfforddiant achrededig ar-lein.
- Cefnogi myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol i gwblhau gymaint o'u lleoliad â phosibl yn ystod y cyfnod clo COVID cychwynnol. Gwnaethpwyd hyn er mwyn sicrhau y byddai cohort o fyfyrwyr yn barod i raddio a llenwi swyddi gwag gyda Gwaith Cymdeithasol.
- Datblygu e-Gyflwyniad i weithwyr wedi'u hadleoli a gwirfoddolwyr yn y Sector Gofal.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

- Gweithio gyda TGP Cymru (Tros Gynnal Plant, ein hasiantaeth partner) o amgylch hyfforddiant Eiriolaeth i bob un o'n Gwasanaethau Plant.
- Darparu "Gweithio gyda Rhieni sy'n Camddefnyddio Canabis a Sylweddau" a gomisiynwyd i adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd o Adolygiadau Ymarferion Plant a Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru 2021.
- Cyrsiau Dementia - gan gynnwys ymddygiad heriol mewn perthynas â dementia a nam ar y clyw, ac un o'r sesiynau mwyaf poblogaidd - cyfathrebu wrth ofalu am rywun sydd â dementia.
- Cyrsiau'n ymwneud â COVID-19 – o ganlyniad i'r pandemig, fe wnaeth y tîm hyfforddi nodi'r angen i sicrhau bod cefnogaeth ar gael i weithwyr a effeithiwyd yn uniongyrchol gan hyn yn fuan iawn, roedd y cyrsiau COVID-19 yn cynnwys ymdrin â cholled a galar fel gweithiwr proffesiynol a chwrs o'r enw Y Ffordd Ymlaen – canolbwyntio ar ffyrdd i helpu pobl i symud ymlaen.
- Cyrsiau gofal rheng flaen – cynigwyd nifer o gyrsiau i sicrhau bod gweithwyr gofal rheng flaen yn parhau i ddatblygu, gan gynnwys ymwybyddiaeth meddyginiaeth, maetheg a hydradu, atal codymau a llawer mwy. Parhaodd y tîm i gynnig hyfforddiant pwysig megis y rhai a restrwyd, ac roedd modd iddynt weithio â darparwyr hyfforddiant i sicrhau bod hyfforddiant a gweithdai hanfodol i gefnogi staff rheng flaen yn parhau i gael eu cynnal drwy gyfnodau anodd ac ansicr, drwy addasu i ddulliau ar-lein.
- Roedd y cyrsiau eraill a gynigwyd yn cynnwys camddefnyddio sylweddau a hyfforddiant ymwybyddiaeth a diogelu (gweithdrefnau newydd)
- Roedd cyrsiau ychwanegol yn cynnwys gweithdai i gefnogi rheolwyr â fframwaith Cyflwyno Cymru Gyfan, sy'n newydd i gynllun hyfforddiant 2020-2021.
- Cwrs Cymorth Cyntaf Seicolegol ac Ôl-drafod Hwyluswyr Wedi Digwyddiadau gan Tidal Training i'r gweithlu, cwrs newydd yn 2020-2021 i gynnig rhagor o gefnogaeth i aelodau'r gweithlu sy'n ymdrin â sefyllfaoedd annisgwyl.

Mae ein hystafell hyfforddiant bellach wedi'i thrawsnewid eto ar ôl ail-leoli'r storfa Cyfarpar Diogelu Personol newydd. Mae'r lluniau isod yn dangos yr ystafell yn cael ei defnyddio fel storfa Cyfarpar Diogelu Personol ac fel cyfleuster hyfforddiant wrth i'r cyfyngiadau Covid-19 ddechrau llacio.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Mwy Na Geiriau

Comisiynwyd cwrs ar-lein, wedi'i anelu at helpu staff gofal ar draws gwasanaethau Oedolion a Phlant i ddatblygu'r sgiliau i gwrdd a chyfarch y cyhoedd yn Gymraeg a chyflawni'r Cynnig Gweithredol. Yn ogystal â hynny, comisiynwyd cyrsiau ar-lein penodol ar gyfer staff gofal Sir Ddinbych ar draws gwasanaethau Oedolion a Phlant.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Roedd y rhain yn cynnwys llyfr gwaith a chwrs blas ar y Gymraeg byr ar-lein, a chwrs ar-lein sy'n addas i staff sy'n deall y Gymraeg ar lafar ond nad ydynt yn ddigon hyderus i siarad Cymraeg.

Yn ystod 2020-21, rydym hefyd wedi rhannu manylion o ran lle gall Darparwyr archebu adnoddau 'Iaith Gwaith' am ddim.

Rydym wedi hyrwyddo'r sticer swigen sgwrs oren a gynhyrchwyd gennym yn ddiweddar yn Sir Ddinbych. Mae'r sticer yn ddefnyddiol fel ffordd hawdd a chyflym o ddangos dewis iaith ar unrhyw waith papur, e.e. ffeiliau unigolion mewn cartrefi preswyl neu ffurflenni 'beth sy'n bwysig'. Mae rhai darparwyr gofal hefyd yn defnyddio'r sticeri mawr ar ddrysau ystafelloedd gwely preswylwyr. Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn dathlu 15 mlynedd ers lansio'r bathodyn swigen siarad oren eleni. Cafodd aelod o staff Sir Ddinbych a phreswylwyr Cartref Gofal Sir Ddinbych eu cynnwys mewn negeseuon cyfryngau cymdeithasol yn ymwneud â phwysigrwydd y 'swigen oren fel rhan o'r pecyn gofal i ofalwyr'.

Rydym wedi rhannu gwybodaeth am y cwrs Cymraeg 10 awr ar-lein sydd ar gael i'r sector gofal, ynghyd â'r adnoddau a gynhyrchwyd gan Gymunedau Digidol Cymru. Yn ogystal â hynny, o fewn ein newyddlen gofal cymdeithasol misol, rydym wedi rhannu manylion ystod o adnoddau Cymraeg sy'n hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg â Darparwyr. Roedd hyn yn cynnwys ystod o apiau iaith a manylion yr adnodd hyfforddiant Gofal Cymdeithasol Cymru newydd sy'n cefnogi dwyieithrwydd i bobl sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

O fewn Gwasanaethau Addysg a Phlant, rydym wedi comisiynu'r ap 'Mind Of My Own' a lansiwyd ym mis Mehefin 2020. Mae'r ap ar gael i blant a phobl ifanc a gaiff eu hatgyfeirio at y Gwasanaethau Plant i fynegi eu barn. Mae'r ap ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

O fewn Gwasanaethau Oedolion, rydym wedi sicrhau fod y rheiny sydd ynghlwm â darn o waith newydd ei gomisiynu mewn partneriaeth â 'Chatalyddion Cymunedol' o Efrog yn ymwybodol o ofynion Safonau'r Gymraeg wrth iddynt ddarparu Microfentrau Cymunedol.

Mae hen adeilad yn Ysgol Glan Clwyd wedi'i ailwampio ac mae bellach yn Ganolfan Gymraeg sy'n cynnig darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg i ddisgyblion o bob oedran, gan gynnwys disgyblion cyn ysgol a chefnogi newydd-ddyfodiaid mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu yn ystod 2020, mae'r adeilad 'Canolfan Gymraeg' bellach ar gael i'w ddefnyddio. Hyd yma, mae cyfnod sabothol athrawon Cymraeg (Prifysgol Bangor), cwrs gofal plant ôl-16 (Mudiad Meithrin) a Chylch Meithrin Llanelwy wedi agor ar y safle. Disgwylir y bydd y defnydd o'r 'Ganolfan Gymraeg' yn cynyddu unwaith y bydd y cyfyngiadau Covid-19 wedi llacio ac y bydd modd i ni ystyried defnydd pellach o'r cyfleuster er mwyn datblygu'r Gymraeg o fewn Sir Ddinbych.

Gofynnwyd hefyd i gynrychiolydd o'r tîm Datblygu'r Gweithlu am fewnbwn i'r gweithdai i gefnogi cynllun peilot y cyflwyniad Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg ar-lein ar gyfer Cyfeilion Dementia Cymru a chyfranogiad mewn prosiect Cenedlaethol i arwain ar y gwaith o safoni terminoleg iechyd a gofal cymdeithasol.

b) Ein hadnoddau ariannol a'n cynlluniau i'r dyfodol

Cyflwynir adroddiadau misol ar yr alldro ariannol i'r tîm gweithredol sy'n rhoi rhagolwg o'r sefyllfa diwedd blwyddyn. Cyfeirir at eithriadau a phwysau yn yr adroddiadau, gyda chamau lliniaru.

Pennir y gyllideb flynyddol yn dilyn proses hir o adolygu pwysau ac arbedion yn yr holl wasanaethau, ac ymgysylltu ag aelodau etholedig ac eraill yn rhan o'r broses honno.

Yn y tymor canolig, mae'r cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Ariannol Tymor Canolig tair blynedd treigl sy'n amlinellu amcangyfrif o sefyllfa gyllidol y cyngor dros y cyfnod hwnnw a thrwy gydweithio â gwasanaethau, mae'n cynnwys amcangyfrifon o'r arbedion sy'n ofynnol neu anghenion am gyllid ychwanegol. Roedd y broses cynllunio tymor canolig hon wedi helpu i ganfod a sicrhau cyllid ychwanegol yn 2021/22 drwy gyllideb y cyngor. Roedd hyn wedi helpu i ddelio â phwysau cynyddol, yn bennaf o ganlyniad i chwyddiant blynyddol mewn ffioedd gofal a chostau cynyddol llety i'r digartref mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion (£2.4 miliwn).

Mae'r prif waith cynllunio ariannol mewnol yn cael i gyflawni'n fisol mewn cyfarfodydd o arweinwyr Gwasanaethau / y tîm rheoli. Rhoddir sylw i fonitro perfformiad a'r sefyllfa ariannol yn y meysydd sydd o dan y pwysau mwyaf. Bydd swyddogion cyllid y Gwasanaethau hefyd yn cwrdd yn rheolaidd â Phenaethiaid Gwasanaethau a'r Tîm Rheoli Gweithredol.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

c) Gweithio mewn partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd

Yn y Timau Adnoddau Cymunedol, mae technoleg ddigidol wedi galluogi cysylltiadau cryfach gyda Gofal Sylfaenol a'r gymuned iechyd a gofal ehangach. Mae hyn wedi bod yn arbennig o lwyddiannus yn ardal ganolog a de Sir Ddinbych ar ôl i Feddygon Teulu ymuno ag ystod o weithwyr proffesiynol iechyd a gofal eraill ym mis Gorffennaf gan fynychu 274 o adolygiadau achosion cymhleth.

Mae cefnogaeth i'n darparwyr Gofal Cymdeithasol wedi bod yn hollbwysig wrth i'r pandemig waethygu. Yn Sir Ddinbych, rydym wedi rhoi trefniadau galw rhagweithiol dyddiol ar waith i'n cartrefi gofal ac asiantaethau gofal cartref dan arweiniad y tîm Contractau a Chomisiynu. Rydym hefyd wedi cyflwyno cyfarfodydd ar-lein wythnosol a oedd yn caniatáu i ni rannu negeseuon, trafod problemau a phryderon, rhannu arfer orau, ond yn bwysicach fyth, roedd yn gyfle i'r cyfranogwyr gynnig cefnogaeth i'w gilydd. Teimlwn fod y cynnydd hwn mewn cyfathrebu ac ymgysylltu wedi arwain at newid yn y berthynas rhwng yr Awdurdod Lleol a Darparwyr, rydym wedi dod i adnabod ein darparwyr yn well nag erioed o'r blaen ac rydym yn gwneud llawer mwy o waith ar y cyd.

Yn y Timau Adnoddau Cymunedol, mae technoleg ddigidol wedi galluogi cysylltiadau cryfach gyda Gofal Sylfaenol a'r gymuned iechyd a gofal ehangach. Mae hyn wedi bod yn arbennig o lwyddiannus yn ardal ganolog a de Sir Ddinbych ar ôl i Feddygon Teulu ymuno ag ystod o weithwyr proffesiynol iechyd a gofal eraill ym mis Gorffennaf gan fynychu adolygiadau achosion cymhleth. Yng ngogledd Sir Ddinbych, mae'r cyfarfodydd diweddaru dyddiol a sefydlwyd yn ystod Covid-19 i drafod pwysau'r gwasanaeth a staffio, cleifion a materion COVID wedi gweithio'n dda iawn drwy gydol y pandemig i adeiladu perthnasoedd cryf gydag Iechyd Meddwl Pobl Hŷn, y Gwasanaeth Plant a Gofal Sylfaenol.

Mae Tîm Anableddau Cymhleth Sir Ddinbych wedi datblygu partneriaethau gwaith cryf iawn yn ystod Covid-19 gyda'u partneriaid cyflenwi, gan addasu darpariaethau traddodiadol i sicrhau bod y rheiny sydd fwyaf angen gwasanaethau'n cael eu cefnogi. Roedd hyn yn cynnwys dulliau ar-lein o gynnig cefnogaeth a defnydd amgen o amgylcheddau h.y. defnyddio ardaloedd awyr agored i alluogi dinasyddion y mae eu hiechyd meddwl mewn perygl i dderbyn cefnogaeth. Dyma ddyfyniad gan fam; "Roedd y Ganolfan Coetiroedd yn fendith i ni a'n mab. Cawsom groeso cynnes ac roedd yn gyfle iddo ddychwelyd i ryw fath o normalrwydd.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Treuliodd y rhan fwyaf o'r noson yn chwerthin ar ôl ei sesiwn gyntaf yn ôl! Yn bersonol, roedd yn gymaint o ryddhad gwybod bod rhywun arall yn gyfrifol am gynllunio beth i'w wneud gydag ef, am y 2 awr nesaf o leiaf."

Mae'r cyngor wedi rhoi trefniadau cadarn ar waith ar gyfer llywodraethu mewnol er mwyn rheoli Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a Gwasanaethau Plant ac Addysg yn effeithiol. Cyflwynir adroddiadau i wahanol Bwyllgorau Craffu drwy gydol y flwyddyn i alluogi Aelodau Etholedig i graffu ar bolisi a pherfformiad mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol, yn cynnwys adroddiadau i fonitro cynnydd ar unrhyw gamau sy'n ofynnol i ymateb i adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr neu adroddiad blynyddol AGC.

Mae gennym broses hefyd sydd wedi'i hirsefydlu ar gyfer herio perfformiad gwasanaethau, lle mae pob pennaeth gwasanaeth yn cael ei herio'n flynyddol ar feysydd fel perfformiad y gwasanaeth ac arweinyddiaeth. Mae'r panel ym mhob cyfarfod ar gyfer herio perfformiad gwasanaethau yn cynnwys y Prif Weithredwr; Cyfarwyddwyr Corfforaethol; Aelodau Arweiniol; Aelodau Pwyllgorau Craffu a'n harchwilwyr allanol (Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru).

Yn ogystal â'r broses ar gyfer herio perfformiad gwasanaethau, mae'r cyngor yn gweithredu fframwaith cadarn ar gyfer rheoli perfformiad sy'n cynnwys cyflwyno adroddiadau i'r Uwch Dîm Arwain; Pwyllgorau Craffu; a'r Cabinet, a chyflwynir adroddiadau amrywiol i Bwyllgorau Craffu ar faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau penodol, fel rhai ar Ganmoliaeth a Chwynion.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Rhagor o wybodaeth a dogfennau allweddol

Rhestr Termau

Ap Mind of My Own

Ap ffôn symudol sy'n ei gwneud yn haws i blant a phobl ifanc siarad â'u gweithwyr cymdeithasol ac ymarferwyr eraill a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed. Mae manylion ar gael ar wefan y cwmni.

Ar Ymyl Gofal

Mae'r cymorth hwn ar gael i deuluoedd agored i niwed sydd â phlant sy'n wynebu'r risg o ddod yn blant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Mae manylion ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cwrs 'Understanding Your Child' Solihull

Mae dull Solihull yn rhaglen ar gyfer y DU sy'n ceisio gwella iechyd a llesiant emosiynol drwy gyfraniad gan ymarferwyr a rhieni. Cyflawnir hyn drwy ddarparu adnoddau a hyfforddiant i'r gweithlu cyfan sy'n ymwneud â phlant a theuluoedd. Bellach mae mwyafrif yr ymwelwyr iechyd yn y DU wedi'u hyfforddi drwy'r model hwn. Mae nifer mawr o ymarferwyr plant a theuluoedd, yn amrywio o fydwragedd i weithwyr cymdeithasol, wedi'u hyfforddi drwy'r model hwn. Mae ysgolion cyfan wedi derbyn hyfforddiant drwyddo. Mae rhai aelodau o'r heddlu, gwasanaethau tân a gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol i oedolion wedi'u hyfforddi. Mae rhagor o fanylion ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (CGGSDd)

Mae'n ceisio hyrwyddo, cefnogi, hwyluso a datblygu Trydydd Sector cynaliadwy yn Sir Ddinbych. Mae'n helpu sefydliadau i ddarparu eu gwasanaethau mewn ffordd effeithiol a chynaliadwy drwy ddarparu cyrsiau hyfforddi isel eu cost, cyngor a gwybodaeth am gyllid, gan helpu gwirfoddolwyr i gymryd mwy o ran yn eu cymunedau. Gweler y manylion yn adnodd DEWIS Cymru.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (DGCLl) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (DRhAGC) 2016

Mae DGCLl yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd ag angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd ag angen cymorth, ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae DRhAGC yn cryfhau'r amddiffyniad i bobl sydd â'i angen, yn sefydlu system rheoleiddio sy'n unol â DGCLl ac yn creu system rheoleiddio sy'n canolbwyntio ar bobl sydd ag angen gofal a chymorth, ac ar y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Dim ond Digon o Gefnogaeth

Gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar sicrhau cynnydd drwy ddarparu cymorth am gyfnod penodol yn ystod y dydd, gyda'r nos neu ar benwythnosau i oedolion sydd ag anableddau cymhleth. Mae'n ddull o weithio mewn partneriaeth rhwng menter gymdeithasol leol a Chyngor Sir Ddinbych. Y nodau yw helpu i weithredu argymhellion Therapi Galwedigaethol, cefnogi a chynorthwyo oedolion ag anableddau dysgu i ddysgu sgiliau newydd a dod yn fwy annibynnol, lleihau dibyniaeth ar y gofalwr teuluol, a sicrhau bod gofal yn cael ei ddirwyn i ben mewn ffordd briodol.

Dull Tîm o Amgylch y Lleoliad

Mae'n darparu cymorth i leoliadau cyn ysgol sy'n cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol drwy'r ffrydiau cyllido Addysg Gynnar neu Dechrau'n Deg. Mae'r broses yn cynnwys y gweithwyr proffesiynol canlynol: Arweinwyr Lleoliadau, Staff Lleoliadau, Swyddog Cynhwysiant y Blynyddoedd Cynnar, Penaethiaid Monitro, Athrawon, Cynorthwywyr Addysgu Dechrau'n Deg a Gweithwyr Cysylltiadau Teuluol. Darparwyd cymorth mewn meysydd fel darparu, yr amgylchedd, cyngor i blant ag anghenion ychwanegol, cynllunio ac asesu ar sail y Cwricwlwm Cyfnod Sylfaen a sicrhau safonau uchel yn y Blynyddoedd Cynnar.

Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd-ddwyrain Cymru (NEWCIS)

Mae'n darparu gwybodaeth, cymorth un i un, hyfforddiant a chwnsela i ofalwyr di-dâl yn y Gogledd-ddwyrain. Mae manylion ar gael yn adnodd DEWIS Cymru.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Iaith Gwaith

Mae'n helpu siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd gwaith ac i rannu adnoddau. Mae gwybodaeth ar gael ar wefan Busnes Cymru.

Llywyr Cymunedol

Mae'r rhain yn gweithio ochr yn ochr ag Un Pwynt Mynediad yr awdurdod lleol ac yn gwneud asesiad Beth sy'n Bwysig i benderfynu pa gymorth y maent yn gallu ei ddarparu a/neu eich cyfeirio at gymorth addas yn y gymuned. Gweler y manylion yn adnodd DEWIS Cymru.

Prosiect Trawsnewid Rhanbarthol

Ni fu erioed gymaint o alw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal ar gynnydd, mae mwy o bobl yn mynd i mewn i'r ysbyty ac yn defnyddio gwasanaethau gofal cartref, mae iechyd meddwl pobl y rhanbarth yn gwaethygu, ac mae pobl ag anableddau dysgu yn byw'n hirach gydag anghenion corfforol a seicolegol mwy cymhleth. Mae pryderon mawr am lefelau'r galw ac a ellir cynnal y system bresennol mewn cyfnod pan yw adnoddau'n prinhau a chyllidebau'n cael eu torri'n llym. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid tymor byr i Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd i gydweithio â gwahanol bartneriaid i drawsnewid y dull o ddarparu cymorth gofal iechyd a chymdeithasol. Mae manylion ar gael ar wefan
Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru.

Siarter Gofalwyr

Cynhyrchwyd y siarter hon drwy ymgynghori ag oedolion a phobl ifanc leol sy'n ofalwyr a hefyd â Grŵp Strategaeth Gofalwyr Sir Ddinbych i sicrhau bod yr holl ofalwyr yn cael gwybodaeth a chymorth o'r ansawdd gorau. Gweler y manylion ar wefan
Cyngor Sir Ddinbych.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Symud ag Urddas

Er 2019, mae Therapydd Galwedigaethol wedi gweithio ar y prosiect hwn yn y Tîm Adolygu, gan hyrwyddo cynlluniau ymarferol i gyflwyno newidiadau yn y dull o asesu preswylwyr yn Sir Ddinbych ar gyfer derbyn cymorth o ran codi a symud. Mae'n gyfrifol am gwmpasu'r mater, ymchwilio i'r arferion gorau, a nodi ffyrdd i ddarparu hyfforddiant effeithiol a chyrraedd y grwpiau staff priodol (yn cynnwys gwasanaethau'r awdurdod lleol, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau darparwyr). Gallai hyn gynnig y fantais o gyflymu'r broses ar gyfer rhyddhau cleifion o ysbytai a gallai wella llesiant a rhoi mwy o ymdeimlad o reolaeth i ddinasyddion a'u gofalwyr, gan eu cyfnerthu a rhoi mwy o ran iddynt yn y broses.

Tai Gofal Ychwanegol

Mae'r rhain yn cynnig y fantais o fyw gartref ynghyd â darpariaeth gofal bwrpasol sydd ar gael ar y safle os bydd angen. Bydd tenantiaid yn byw mewn eiddo hunangynhwysol, nid mewn cartref preswyl, a bydd ganddynt eu drws ffrynt eu hunain. Mae hyn yn helpu pobl i gadw eu hannibyniaeth. Mae manylion ar gael ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.

Timau Adnoddau Cymunedol (TACau)

Mae'r rhain yn cynnig dull mwy cyfannol o ddarparu gofal iechyd a chymdeithasol yn y gymuned lle mae staff iechyd (yn cynnwys nyrsys cymunedol, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol a thimau iechyd meddwl pobl hŷn) a staff gwasanaethau cymdeithasol (yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol ac ymarferwyr gofal cymdeithasol) i gyd yn gweithio o'r un man. Mae naw tîm ar y cyd yn Sir Ddinbych a Chonwy sy'n canolbwyntio ar gydweithio'n agosach i ddarparu gofal yn agosach i gartref, gan gynnig gwell darpariaeth i'r boblogaeth a mwy o sylw a buddsoddi ar gyfer atal ac ymyrryd yn gynnar. Gweler y manylion yn Llais y Sir.

Trefniadau Amddiffyn Rhyddid

Bwriedir dod â'r rhain i rym yn Ebrill 2022. Byddant yn amddiffyn pobl 16 oed a hŷn sy'n cael neu sydd ag angen cael eu hamddifadu o'u rhyddid fel y gellir darparu gofal neu driniaeth iddynt ac sydd heb alluedd meddyliol i gydsynio i'w trefniadau. Ymysg y bobl y gellir awdurdodi Trefniadau Amddiffyn Rhyddid ar eu cyfer y mae'r rheini sydd â dementia, awtistiaeth ac anableddau dysgu sydd heb alluedd perthnasol. Mae manylion ar gael ar wefan Gov.UK.

Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020 - 2021

Un Pwynt Mynediad (UPM)

Mae'r tîm yn cynnwys staff profiadol o sefydliadau iechyd, gofal cymdeithasol a'r Trydydd Sector sy'n gallu darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth o ran y gwasanaethau sydd ar gael. Yr UPM yw'r fynedfa at wasanaethau sy'n sicrhau eich bod yn cael y gofal priodol, yn y lle priodol gan bobl sydd â'r sgiliau priodol ac ar yr adeg briodol, y tro cyntaf. Mae manylion ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.